META NET

White Paper Series Cyfres Papurau Gwyn

THE WELSH LANGUAGE IN THE DIGITAL AGE

Y GYMRAEG YN YR OES DDIGIDOL

Jeremy Evas

Springer

White Paper Series Cyfres Papurau Gwyn

THE WELSH LANGUAGE IN THE DIGITAL AGE

Y GYMRAEG YN YR OES DDIGIDOL

Jeremy Evas
Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd
School of Welsh, Cardiff University

Georg Rehm, Hans Uszkoreit
(Golygyddion, editors)

RHAGARWEINIAD

Mae'r papur gwyn hwn yn rhan o gyfres sy'n hyrwyddo gwybodaeth am dechnoleg iaith a'i photensial. Mae'n targedu addysgwyr, newyddiadurwyr, llunwyr polisi, gwleidyddion, cynrychiolwyr a chymunedau ieithyddol ac eraill. Mae faint o dechnoleg iaith sydd ar gael yn Ewrop a'r defnydd ohoni yn amrywio rhwng ieithoedd. O ganlyniad, mae'r camau gweithredu y mae eu hangen i gefnogi ymchwil bellach ac i ddatblygu technolegau iaith hefyd yn wahanol ar gyfer pob iaith. Mae'r camau gweithredu angenrheidiol yn dibynnu ar sawl ffactor, megis cymhlethdod yr iaith a nifer ei siaradwyr. Yn y gyfres hon o bapurau gwyn, mae META-NET, rhwydwaith o ragoriaeth a ariennir gan y Comisiwn Ewropeaidd, wedi cynnal dadansoddiad o'r adnoddau a thechnolegau ieithyddol cyfredol sydd ar gael. Canolbwyntiodd y dadansoddiad ar 23 iaith swyddogol Ewrop yn ogystal ag ieithoedd cenedlaethol a rhanbarthol pwysig eraill Ewrop. Mae canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn awgrymu bod llawer o fylchau ymchwil sylweddol ar gyfer pob iaith. Bydd dadansoddiad mwy manwl-arbenigol ac asesiad o'r sefyllfa bresennol yn helpu i fanteisio i'r eithaf ar ymchwil ac i leihau risgiau. Fis Tachwedd 2011, roedd META-NET yn cynnwys 54 o ganolfannau ymchwil o 33 o wledydd Ewropeaidd sydd yn gweithio gyda rhanddeiliaid o'r economi (cwmnïau meddalwedd, darparwyr a defnyddwyr technoleg) asiantaethau llywodraethol, sefydliadau ymchwil, sefydliadau anllywodraethol, cymunedau ieithyddol a Phrifysgolion Ewropeaidd. Ar y cyd â'r cymunedau hyn, mae META-NET wrthi'n creu gweledigaeth gyffredin ar gyfer technoleg ac agenda ymchwil strategol ar gyfer Ewrop amlieithog yn 2020

PREFACE

This white paper is part of a series that promotes knowledge about language technology and its potential. It addresses journalists, politicians, language communities, educators and others. The availability and use of language technology in Europe varies between languages. Consequently, the actions that are required to further support research and development of language technologies also differ. The required actions depend on many factors, such as the complexity of a given language and the size of its community.

META-NET, a Network of Excellence funded by the European Commission, has conducted an analysis of current language resources and technologies in this white paper series. The analysis focuses on the 23 official European languages as well as other important national and regional languages in Europe. The results of this analysis suggest that there are tremendous deficits in technology support and significant research gaps for each language. The given detailed expert analysis and assessment of the current situation will help maximise the impact of future research.

As of November 2011, META-NET consists of 54 research centres in 33 European countries. META-NET is working with stakeholders from economy (software companies, technology providers and users), government agencies, research organisations, non-governmental organisations, language communities and European universities. Together with these communities, META-NET is creating a common technology vision and strategic research agenda for multilingual Europe 2020.

Mae awdur y ddogfen hon yn ddiolchgar i awduron y papur gwyn ar yr Almaeneg [1] am ganiatâd i ailddefnyddio peth deunydd annibynnol-ar-iaith o'u dogfen ac i Laura Amey, John Judge, Jonathan Morris, Michael Speed, a Colin Williams am eu cymorth gyda'r papur hwn.

Ariannwyd datblygu'r papur gwyn hwn gan Raglen Seithfed Fframwaith a Rhaglen Cefnogi Polisi TG y Comisiwn Ewropeaidd o dan y contractau T4ME (Cytundeb Grant 249119), CESAR (Cytundeb Grant 271022), META-NET4U (Cytundeb Grant 270893) a META-NORD (Cytundeb Grant 270899).

The author of this document is grateful to the authors of the white paper on German for permission to re-use selected language-independent materials from their document [1], and to Laura Amey, John Judge, Jonathan Morris, Michael Speed, and Colin Williams for their help with this paper.

The development of this white paper has been funded by the Seventh Framework Programme and the ICT Policy Support Programme of the European Commission under the contracts T4ME (Grant Agreement 249119), CESAR (Grant Agreement 271022), METANET4U (Grant Agreement 270893) and META-NORD (Grant Agreement 270899).

TABL CYNNWYS CONTENTS

Y Gymraeg yn yr Oes Ddigidol

THE WELSH LANGUAGE IN THE DIGITAL AGE

1

CRYNODEB GWEITHREDOL

Iaith yw'r prif ddull o gyfathrebu rhwng pobl. Mae'n ein galluogi i fynegi syniadau a theimladau, yn ein helpu i ddysgu ac addysgu, mae'n hanfodol ar gyfer byw. Dyma'r prif ddull o drosglwyddo diwylliant, ac mae'n symbol o'n hunaniaeth. O ystyried y globaleiddio sydd ohoni, mae gennym lawer o ddulliau o gyfathrebu'n hawdd gyda phobl o bob cwr o'r byd. Er enghraifft, mae'r technolegau gwybodaeth a chyfathrebu newydd wedi galluogi datblygu rhwydweithiau cymdeithasol sydd wedi annog a gwella rhyngweithio rhwng pobl o bron pob gwlad a diwylliant. Hefyd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yr ydym wedi gweld symudiadau mawr o bobl tramor rhwng ein gwledydd, h.y. twristiaeth neu fewnfudo—sy'n creu'r angen am gyfathrebu ymysg gwahanol ieithoedd. Yn aml bydd y broblem cyfathrebu traws-ieithog hon yn cael ei datrys drwy ddefnyddio lingua franca. Yng ngwledydd Ewrop ceir enghraifft eglur o amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol er gwaethaf y ffaith i Ewrop ymffurfio fwyfwy yn endid gwleidyddol ac economaidd penodol yn ystod y 60 mlynedd diwethaf. O ganlyniad, mae'n anochel ein bod yn wynebu heriau ieithyddol mewn bywyd bob dydd yn ogystal ag ym meysydd busnes, gwleidyddiaeth a'r gwyddorau.

Mae'n anochel ein bod yn wynebu heriau ieithyddol mewn bywyd bob dydd yn ogystal ag ym meysydd busnes, gwleidyddiaeth a'r gwyddorau

Bydd sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd yn gwario tua biliwn Ewro y flwyddyn ar gynnal eu polisi amlieithrwydd, h.y. cyfieithu testunau a chyfieithu ar y pryd. Ar yr un pryd, mae Saesneg yn troi'n lingua franca wrth i'r sefydliadau Ewropeaidd gyfathrebu â'u dinasyddion. Yn y DU, fel enghraifft o hyn, mae gennym sefyllfa debyg. Gan fod llawer o wasanaethau cyhoeddus bellach yn cael eu darparu naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy ddulliau technolegol, mae darparu a chofnodi dewis iaith, a'r dechnoleg iaith angenrheidiol i roi'r dewis hwn ar waith bellach yn fater o bwys am sawl rheswm. Mae'r cyfiawnhad mwyaf perthnasol yn ymwneud â hyrwyddo: dinasyddiaeth weithgar, tegwch o ran mynediad at wasanaethau meddygol, hygyrchedd ar gyfer y rhai, er enghraifft, sydd â nam ar eu golwg, a chynrychiolaeth ddemocrataidd ei hun.

Gall technoleg bontio rhwng gwahanol ieithoedd

O'i chyfuno â dyfeisiau deallus a rhaglenni, bydd technoleg iaith y dyfodol yn gallu helpu dinasyddion i siarad yn rhwydd â'i gilydd a gwneud busnes â'i gilydd, hyd yn oed os nad ydynt yn siarad iaith gyffredin. Mae hyn, yng nghyd-destun deddfwriaeth ieithyddol sydd newydd ei phasio sy'n effeithio ar y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn hollbwysig. Bydd atebion technoleg iaith yn y pen draw yn gwasanaethu fel pont unigryw rhwng gwahanol ieithoedd. Fodd bynnag, mae'r technolegau iaith ac offer prosesu lleferydd sydd ar gael ar y farchnad ar hyn o bryd (yn amrywio o systemau ateb cwestiwn i ryngwynebau iaith naturiol, gan gynnwys systemau cyfieithu ac offer crynhoi, ymhlith llawer o rai eraill), yn dal i fod heb gyrraedd y nod uchelgeisiol hwn. Mor gynnar â diwedd y 1970au, sylweddolodd yr Undeb Ewropeaidd berthnasedd arwyddocaol technoleg iaith fel grym

i yrru undod Ewropeaidd, a dechrau ariannu'r prosiectau ymchwil cyntaf o fewn y maes datblygol hwn. Ar yr un pryd, sefydlwyd prosiectau cenedlaethol ac awtonomig a oedd yn cynhyrchu canlyniadau gwerthfawr ond ni chafwyd gweithgarwch Ewropeaidd cydlynol. Mae prif dechnolegau iaith heddiw yn dibynnu ar ddulliau ystadegol nad ydynt yn fanwl gywir, nad ydynt yn gwneud defnydd o ddulliau ieithyddol dyfnach, rheolau a gwybodaeth. Er enghraifft, bydd brawddegau'n cael eu cyfieithu'n awtomatig gan gymharu brawddeg newydd yn erbyn miloedd o frawddegau a gyfieithwyd yn flaenorol gan fodau dynol. Mae ansawdd yr allbwn i raddau helaeth yn dibynnu ar faint ac ansawdd y corpws sampl sydd ar gael. Fodd bynnag, mae hyd yn oed y dull ystadegol lled-anghywir yn llawer mwy cynhyrchiol na llafur cyfieithydd unigol nad yw'n ymelwa ar dechnoleg o'r fath, neu'n ymelwa ar rannu amser-go-iawn â gwaith cyfieithwyr eraill drwy Gof Cyfieithu. Er y gall cyfieithu brawddegau syml yn awtomatig mewn ieithoedd a chanddynt symiau digonol o ddeunydd testun ddarparu canlyniadau defnyddiol, mae dulliau ystadegol bas yn rhwym o fethu yn achos ieithoedd a chanddynt gorff llawer llai o ddeunydd sampl, neu yn achos brawddegau a chanddynt strwythurau cymhleth. Dadansoddi priodweddau strwythurol dyfnach ieithoedd yw'r unig ffordd ymlaen os dymunir adeiladu rhaglenni sy'n perfformio'n dda ar draws ystod eang o ieithoedd. Felly, yr ateb i broblem cyfathrebu rhwng ieithoedd yw adeiladu technolegau galluogi allweddol. Er mwyn cyrraedd y nod hwn a chadw amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol Ewrop, yn gyntaf, mae angen dadansoddiad systematig o nodweddion ieithyddol holl ieithoedd Ewrop, a chyflwr presennol technoleg iaith i'w cefnogi. Dyma bwrpas y papur gwyn hwn sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Yr ateb i broblem cyfathrebu rhwng ieithoedd yw adeiladu technolegau galluogi allweddol

Fel y mae'r gyfres hon o bapurau gwyn yn ei ddangos, mae gwahaniaeth dramatig rhwng aelod-wladwriaethau Ewrop o ran aeddfedrwydd y gwaith ymchwil a pharodrwydd yr ymateb i adnabod a gweithredu atebion iaith. Un o gynigion a chasgliadau sy'n deillio o'r dystiolaeth o'r hyn sydd ar gael yw bod y Gymraeg yn un o ieithoedd yr UE sydd angen ymchwil bellach cyn bod technoleg iaith yn barod i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd bob dydd yn eang, cyn bod yr iaith wedi'i normaleiddio ym myd technoleg a chyn bod y dechnoleg honno'n normaleiddio'r Gymraeg i'w llawn botensial. Tra bo technoleg iaith yn dechnoleg galluogi ac nid yn nod ynddi ei hun ar gyfer y person-yn-y-stryd, mae'n hanfodol bod ieithoedd llai fel y Gymraeg yn derbyn sylw dyledus neu bydd eu siaradwyr yn cael eu difreinio ymhellach.

Mae'n hanfodol bod ieithoedd lleiafrifol yn cael sylw dyledus, neu bydd eu siaradwyr yn cael eu difreinio ymhellach

Mewn ardal lle na fydd yw siaradwyr iaith yn dod i adnabod ei gilydd mewn modd ethnig neu fel arall, mae gan dechnoleg rôl fawr i'w chwarae o ran cofnodi dewis iaith dinasyddion. Byddai'r sefyllfa galluogi ddelfrydol hon yn gweld y dechnoleg yn galluogi asiantau'r wladwriaeth a sectorau eraill i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg *mewn modd rhagweithiol*, gan y bydd dewis iaith dinasyddion eisoes yn hysbys iddynt. Er bod y sefyllfa ddeddfwriaethol yng Nghymru a ddisgrifir isod yn datblygu ei disgwrs ar gyfer y wladwriaeth i fod yn ddarparwr gwasanaethau o'r fath, bydd technoleg yn galluogi tegwch o ran darpariaeth iaith i bob dinesydd (e.e. cyfeirio galwadau ffôn Cymraeg yn awtomatig i staff sy'n siarad Cymraeg, cyfateb staff Cymraeg yn y gwasanaethau cymdeithasol/meddygol â defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg ac yn y blaen).

Bydd technoleg yn galluogi tegwch o ran darpariaeth iaith i bob dinesydd

2

IEITHOEDD MEWN PERYGL: HER I DECHNOLEG IAITH

Rydym yn dystion i chwyldro digidol sy'n effeithio cyfathrebu a'r gymdeithas mewn modd dramatig. Weithiau mae'r datblygiadau diweddar mewn technoleg gwybodaeth ddigidol a chyfathrebu yn cael eu cymharu â'r wasg argraffu a grëwyd gan Gutenberg. Beth gall y gymhariaeth hon ei ddweud wrthym am y dyfodol cymdeithas gwybodaeth Ewrop a'n hiaith ni yn benodol? Wedi i Gutenberg ddyfeisio'r wasg, cafwyd datblygiadau gwirioneddol mewn cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth trwy ymdrechion megis cyfieithu'r Beibl i ieithoedd brodorol.

Mae modd cymharu'r chwyldro digidol â gwasg argraffu Gutenberg

Yn y canrifoedd dilynol, datblygwyd technegau diwylliannol i drin prosesu iaith a chyfnewid gwybodaeth yn well:

- fe wnaeth safoni orgraffyddol a gramadegol y prif ieithoedd alluogi lledaenu syniadau gwyddonol a deallusol newydd yn gyflym
- fe wnaeth datblygu ieithoedd swyddogol greu posibilrwydd i ddinasyddion gyfathrebu o fewn ffiniau penodol (yn aml rhai gwleidyddol)
- mae addysgu a chyfieithu ieithoedd wedi galluogi cyfnewidfeydd ar draws ieithoedd; mae creu canllawiau golygyddol a llyfryddiaethol wedi sicrhau ansawdd deunydd print
- mae creu gwahanol gyfryngau megis papurau newydd, radio, teledu, llyfrau, a fformatau eraill wedi bodloni anghenion cyfathrebu gwahanol.

Yn yr un modd, yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf, mae technoleg gwybodaeth wedi helpu i awtomeiddio a hwyluso ymhellach prosesu iaith a chyfnewid gwybodaeth:

- mae meddalwedd cyhoeddi bwrdd gwaith wedi cymryd lle teipio a chysodi;
- mae Microsoft PowerPoint, ac yn fwy diweddar, Prezzi wedi disodli tryloywderau taflunydd;
- mae e-bost yn caniatáu i ddogfennau gael eu hanfon a'u derbyn yn gyflymach na defnyddio peiriant ffacs;
- mae Skype a rhaglenni eraill yn darparu galwadau ffôn rhad ar y rhyngrwyd a chynnal cyfarfodydd rhithwir;
- mae fformatau amgodio sain a fideo yn ei gwneud yn hawdd cyfnewid cynnwys aml-gyfryngol;
- mae peiriannau chwilio ar y we yn darparu mynediad yn seiliedig ar allweddeiriau;
- mae gwasanaethau ar-lein megis Google Translate yn cynhyrchu cyfieithiadau cyflym ond bras;
- mae platffyrm cyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter yn hwyluso rhannu cyfathrebu, cydweithio, a gwybodaeth.

Er bod yr offer a'r rhaglenni hyn yn ddefnyddiol, nid ydynt eto yn gallu cynnal cymdeithas Ewropeaidd am-

lieithog hollol gynaliadwy y gall gwybodaeth a nwyddau lifo'n rhydd ynddi.

2.1 MAE FFINIAU IEITHYDDOL YN LLESTEIRIO CYMDEITHAS GWYBODAETH EWROP

Ni ellir rhagweld union ffurf a siâp cymdeithas gwybodaeth y dyfodol. Ond mae tebygolrwydd cryf bod y chwyldro mewn technoleg cyfathrebu yn dod â phobl sy'n siarad ieithoedd gwahanol at ei gilydd mewn ffyrdd newydd. Mae hyn yn rhoi pwysau ar unigolion i ddysgu ieithoedd newydd ac yn arbennig ar ddatblygwyr i greu rhaglenni technoleg newydd i sicrhau cyd-ddealltwriaeth ymysg siaradwyr gwahanol ieithoedd a mynediad at wybodaeth y gellir ei rhannu. Mewn gofod economaidd a gwybodaeth fyd-eang, mae mwy o ieithoedd, siaradwyr a chynnwys yn rhyngweithio'n gyflymach â mathau newydd o gyfryngau. Megis dechrau'r peth yw poblogrwydd cyfredol cyfryngau cymdeithas 'Gwe2.0' (megis Wikipedia, Facebook, Twitter, YouTube, ayb). Cynnwys sydd frenin a bellach, mae'r defnyddiwr yn rheoli i raddau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen. Mae'r rhyddhau hwn rhag rheolaeth yn debyg i'r chwyldro mewn cyfalafiaeth argraffu a gynorthwyodd i ffurfio gwladwriaeth genedl fonolithig uniaith dair canrif yn ôl. Fodd bynnag, y tro hwn, *unigolion* sy'n rheoli, ac mae gan eu hieithoedd lwybr ar gyfer mynegiant a wadwyd iddynt hyd yma. A allai Gwe2.0, o'i chysylltu â thechnoleg iaith berthnasol fod yn gyfalafiaeth argraffu newydd a ddefnyddid yn hanesyddol fel grym homogeneiddio gan wladwriaethau cenedl, ond y tro hwn, *o blaid ieithoedd lleiafrifol*?

Heddiw, gellir trosglwyddo gigabeit o destun o gwmpas y byd mewn ychydig eiliadau cyn inni sylweddoli ei fod mewn iaith nad ydym yn ei deall. Yn ôl adroddiad gan y Comisiwn Ewropeaidd [2], bydd 57% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn Ewrop yn prynu nwyddau a gwasanaethau mewn ieithoedd nad ydynt yn frodorol iddynt (Saesneg yw'r iaith dramor fwyaf cyffredin wedyn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg). Bydd 55% o ddefnyddwyr yn darllen cynnwys mewn iaith dramor ond dim ond 35% yn defnyddio iaith arall i ysgrifennu e-bost neu i bostio sylwadau ar y we. Ychydig flynyddoedd yn ôl, efallai y byddai'r Saesneg wedi bod yn lingua franca ar y we—roedd mwyafrif helaeth cynnwys y we yn Saesneg, o bosibl oherwydd iddi gael ei datblygu yn y lle cyntaf mewn gwledydd Saesneg eu hiaith. O ran cyfnod cynnar datblygu gwe-cynnwys ar gyfer ieithoedd RML, un rhagdybiaeth yw y gall hyn fod wedi digwydd oherwydd y meddylfryd a'r agweddau diglosig a ddisgrifir uchod.

> Mewn gofod economaidd a gwybodaeth fyd-eang, mae mwy o ieithoedd, siaradwyr a chynnwys yn rhyngweithio'n gyflymach â mathau newydd o gyfryngau

Yn ffodus, mae'r sefyllfa bellach wedi newid yn sylweddol. Mae cyfran y cynnwys ar-lein mewn ieithoedd Ewropeaidd eraill (yn ogystal â rhai Asia a'r Dwyrain Canol) wedi ffrwydro. Yn rhyfedd iawn, nid yw'r rhaniad digidol hollbresennol hwn o ganlyniad i ffiniau ieithyddol wedi cael llawer o sylw cyhoeddus, ac eto, mae'n codi cwestiwn pwysig iawn: Sut *yn union* y gall technolegau alluogi ieithoedd i ffynnu yn y gymdeithas gwybodaeth wedi'i rhwydweithio pan fydd cynifer ohonynt mewn perygl? Er enghraifft, mae Ethnologue [3] yn nodi bod tua 7,015 o ieithoedd yn y byd. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain o dan risg ac ni fyddant yn cael eu trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol (mae'r fath drosglwyddo iaith yn un o ddangosyddion allweddol bywiogrwydd iaith). Mae'r fath risgiau yn destun adran nesaf y papur gwyn hwn.

Nid yw'r rhaniad digidol hollbresennol hwn o ganlyniad i ffiniau ieithyddol wedi cael llawer o sylw cyhoeddus

2.2 EIN HIEITHOEDD MEWN PERYGL

Er bod y wasg argraffu a'r gyfalafiaeth argraffu gysylltiedig wedi cynorthwyo i gyflymu cyfnewid gwybodaeth yn Ewrop [4], mae hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at y broses lle mae llawer o ieithoedd Ewropeaidd yn colli nifer sylweddol o siaradwyr. Anaml iawn y byddai llawer o ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol yn cael eu hargraffu a chawsant eu cyfyngu i ffurfiau llafar, sydd yn ei dro yn cyfyngu ar sgôp eu defnyddio. Fe wnaeth y Gymraeg elwa ar iaith ysgrifenedig safonol a grëwyd gan yr Esgob William Morgan yn ei gyfieithiad o'r Beibl yn 1588. Ond sut y bydd y Gymraeg yn goroesi effaith y rhyngrwyd? Mae oddeutu 80 o ieithoedd yn Ewrop—dyma rai o'i hasedau diwylliannol cyfoethocaf a phwysicaf, [5] ac maent yn rhan hanfodol o'i model cymdeithasol unigryw. Er bod ieithoedd megis Saesneg a Sbaeneg yn debygol o oroesi yn y farchnad ddigidol sy'n dod i'r amlwg, gallai llawer o ieithoedd Ewropeaidd droi'n amherthnasol mewn cymdeithas sydd wedi'i rhwydweithio oni bai digon o gamau strategol yn cael eu cymryd. Byddai hyn yn gwanhau statws byd-eang Ewrop, ac yn mynd yn groes i'r nod strategol o sicrhau cyfranogiad cyfartal i bob dinesydd Ewropeaidd waeth beth yw eu hiaith. Mae amrywiaeth ieithyddol eang Ewrop gyda'i hasedau diwylliannol cyfoethocaf a phwysicaf. Yn ôl adroddiad UNESCO [6] ar amlieithrwydd, mae iaith yn gyfrwng hanfodol ar gyfer mwynhau hawliau sylfaenol, megis mynegiant gwleidyddol, addysg a chyfranogiad mewn cymdeithas.

O'r fan hon, symudir oddi wrth elfennau gwleidyddol, athronyddol, hanesyddol a strategol, i rai gweithredol. I ryw raddau, ac i orsymleiddio'n ddybryd gan esgeuluso'r cyd-destun cymdeithasol a amlinellwyd uchod, *gellid* portreadu iaith (wedi ei diriaethu ar ffurf gwrthrych y gellir ei fanipwleiddio) y tu allan i'r cyd-destun cymdeithasol hwnnw ac at ddibenion TG, fel 'dim byd mwy na chynnwys.' I grynhoi, mae gan dechnoleg a thechnoleg iaith ran fawr i'w chwarae wrth helpu bywydau pobl ddwyieithog ac i gael ei defnyddio fel offeryn cynllunio statws i newid agweddau dwfn tuag at y defnydd iaith 'L' mewn meysydd sydd hyd yn hyn wedi bod yn anghyfarwydd iddynt. Mae technoleg yn hollbresennol. Rhaid i amlieithrwydd fod yn hollbresennol mewn technoleg.

Sut y bydd y Gymraeg yn goroesi effaith y Rhyngrwyd?

2.3 MAE TECHNOLEG IAITH YN DECHNOLEG ALLWEDDOL AR GYFER GALLUOGI

Yn y gorffennol, bu ymdrechion mewn cadwraeth ieithyddol yn canolbwyntio ar ddysgu'r iaith a chyfieithu. Yn ôl un amcangyfrif, gwerth y farchnad Ewropeaidd ar gyfer cyfieithu, dehongli, lleoleiddio meddalwedd a globaleiddio gwefannau oedd €8.4 biliwn yn 2008 a disgwylir iddi dyfu o 10% y flwyddyn [7]. Eto mae'r ffigur hwn ond yn cwmpasu cyfran fechan o anghenion y presennol a'r dyfodol o ran cyfathrebu rhwng ieithoedd. Yr ateb mwyaf cymhellol a fydd yn sicrhau bod ieithoedd Ewrop yn cael eu defnyddio'n eang ac mewn sawl maes yw defnyddio technoleg briodol, yn union fel yr ydym yn defnyddio technoleg i ddatrys ein hanghenion cludiant, ynni ac anabledd ymhlith eraill. Gall technoleg iaith sy'n targedu pob math o gyfryngau ysgrifenedig a llafar helpu pobl i gydweithio, i gynnal busnes,

i rannu gwybodaeth ac i gymryd rhan mewn dadleuon cymdeithasol a gwleidyddol gan ddiystyru rhwystrau iaith a sgiliau cyfrifiadurol.

Mae technoleg yn hollbresennol. Rhaid i amlieithrwydd fod yn hollbresennol mewn technoleg

Yn aml bydd eisoes ar waith heddiw mewn modd anweledig y tu mewn i systemau meddalwedd cymhleth i'n helpu i: ddod o hyd i wybodaeth gyda pheiriant chwilio; gwirio sillafu a gramadeg mewn prosesydd geiriau; i weld argymhellion cynnyrch mewn siop ar-lein, i ddilyn cyfarwyddiadau llafar system llywio; i gyfieithu ar y we tudalennau trwy wasanaeth ar-lein. Mae technoleg iaith yn cynnwys nifer o raglenni craidd sy'n galluogi prosesau o fewn fframwaith mwy.

Pwrpas papurau gwyn iaith META-NET yw canolbwyntio ar ba mor barod y mae'r technolegau galluogi craidd ar gyfer pob iaith Ewropeaidd. Mae ar Ewrop angen technoleg iaith gadarn a fforddiadwy ar gyfer ei holl ieithoedd.

Mae ar Ewrop angen technoleg iaith gadarn a fforddiadwy ar gyfer ei holl ieithoedd

Er mwyn cynnal ein safle rheng flaen o ran arloesi bydeang, bydd angen ar Ewrop dechnoleg iaith, wedi'i theilwra i bob iaith Ewropeaidd, sy'n gadarn ac yn fforddiadwy a gellir ei hintegreiddio'n dynn mewn amgylcheddau meddalwedd allweddol. Heb dechnoleg iaith, ni fyddwn yn gallu sicrhau profiad rhyngweithiol, amlgyfryngol ac amlieithog i'r defnyddiwr yn effeithiol iawn yn y dyfodol agos.

2.4 CYFLEOEDD AR GYFER TECHNOLEG IAITH

Ym myd print, y datblygiad allweddol oedd galluogi dyblygu delwedd testun yn gyflym, a hynny drwy ddefnyddio gwasg argraffu ag iddi bŵer addas. Roedd yn rhaid i fodau dynol wneud y gwaith caled: chwilio, asesu, cyfieithu, a chrynhoi gwybodaeth. Bellach, gall technoleg iaith symleiddio ac awtomeiddio prosesau llif gwaith cyfieithu, creu cynnwys, a rheoli gwybodaeth. Gall hefyd rymuso rhyngwynebau llafar deallus ar gyfer offer electroneg yn y cartref, mewn peiriannau, cerbydau, cyfrifiaduron a robotiaid. Mae'n ddyddiau cynnar eto o ran datblygu rhaglenni masnachol a diwydiannol yn y byd go iawn, ond eto mae'r hyn a gyflawnwyd o ran ymchwil a datblygu yn creu cyfleoedd gwirioneddol. Er enghraifft, mae cyfieithu awtomatig (a ddisgrifir isod yn achos y Gymraeg) eisoes yn weddol gywir mewn meysydd penodol, ac mae rhaglenni arbrofol yn darparu gwybodaeth amlieithog ac yn rheoli gwybodaeth, yn ogystal â chreu cynnwys, mewn llawer o ieithoedd Ewropeaidd. Fel yn achos y rhan fwyaf o dechnolegau, datblygwyd y rhaglenni iaith cyntaf megis rhyngwynebau defnyddwyr seiliedig-ar-lais a systemau deialog ar gyfer meysydd arbenigol (er enghraifft, meysydd meddygol cul, ar gyfer cymryd nodiadau), ac yn aml cyfyngedig yw eu perfformiad. Fodd bynnag, mae marchnadoedd enfawr yn y diwydiannau addysg ac adloniant ar gyfer integreiddio technolegau iaith i mewn i gemau, pecynnau addysg-adloniant, llyfrgelloedd, amgylcheddau efelychu a rhaglenni hyfforddi. Gwasanaethau gwybodaeth symudol, meddalwedd cyfrifiadurol ben-bwrdd, e-ddysgu amgylcheddau dysgu cyfunol, offer hunanasesu a meddalwedd canfod llên-ladrata (a ddefnyddir i ganfod llên-ladrata gwaith wedi cyflwyno aseiniadau myfyrwyr) dyma rai yn unig o'r meysydd y gall technoleg iaith chwarae rôl bwysig ynddynt. Mae poblogrwydd rhaglenni cyfryngau cymdeithasol megis Twitter a Facebook yn awgrymu angen

am dechnolegau iaith soffistigedig sy'n gallu monitro postiadau, crynhoi trafodaethau, awgrymu tueddiadau barn, canfod ymatebion emosiynol, nodi tor-hawlfraint neu dracio camddefnydd. Mae'r un peth yn wir ar gyfer prosiectau ymchwil 'data mawr' [8] a rhai sy'n olrhain tueddiadau, fel y rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau diogelwch i ganfod y posibilrwydd o aflonyddwch cymdeithasol a geiriau 'casineb'. Mae technoleg Iaith yn helpu i oresgyn 'anabledd' (fel y byddai rhai yn ei alw) amrywiaeth ieithyddol. Mae technoleg iaith yn gyfle gwych ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd. Gall helpu i fynd i'r afael â mater cymhleth amlieithrwydd yn Ewrop—sef y ffaith bod gwahanol ieithoedd yn cydfodoli'n naturiol mewn busnesau, sefydliadau ac ysgolion. Fodd bynnag, mae angen i ddinasyddion gyfathrebu ar draws ffiniau iaith Marchnad Gyffredin Ewrop, a gall technoleg iaith helpu i oresgyn y rhwystr olaf hwn, wrth gefnogi defnyddio ieithoedd unigol mewn modd rhydd ac agored. Gan fwrw golwg ymhellach i'r dyfodol, bydd technoleg iaith amlieithog arloesol yn Ewrop yn darparu meincnod ar gyfer ein partneriaid byd-eang pan fyddant yn dechrau cefnogi eu cymunedau amlieithog eu hunain.

> Mae technoleg Iaith yn helpu i oresgyn 'anabledd' (fel y byddai rhai yn ei alw) amrywiaeth ieithyddol

Er bod technoleg iaith wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cyflymder y cynnydd technolegol a'r arloesi sydd ohoni yn rhy araf o ran cynhyrchion. Fel arfer, bydd technolegau a ddefnyddir yn eang, fel gwirwyr sillafu a gramadeg mewn prosesyddion geiriau yn uniaith, ac maent ond ar gael ar gyfer llond llaw o ieithoedd. Mae gwasanaethau cyfieithu awtomatig ar-lein, er yn ddefnyddiol ar gyfer cynhyrchu brasamcan rhesymol o gynnwys dogfen yn gyflym, yn llawn anawsterau pan fydd angen cyfieithiadau hynod gywir ac yn gyflawn. Mae cyflymder y cynnydd sydd ohoni ym myd technoleg iaith yn rhy araf. Oherwydd cymhlethdodau iaith ddynol, mae darparu ar gyfer modelu cyfrifiadurol ein hieithoedd a'u profi yn y byd go iawn yn ofyn mawr o ran amser a chost ac mae gofyn am ymrwymiadau ariannu parhaus. Felly, rhaid i Ewrop gynnal ei rôl arloesol wrth wynebu'r heriau technolegol a grëir gan gymuned amlieithog trwy ddyfeisio dulliau newydd i gyflymu datblygiad ar draws y map.

2.5 CAFFAEL IAITH MEWN BODAU DYNOL A PHEIRIANNAU

Er mwyn dangos sut mae cyfrifiaduron yn trin iaith a pham y mae'n anodd eu rhaglennu i brosesu gwahanol ieithoedd, edrychwn yn gryno ar y ffordd y mae pobl yn caffael iaith gyntaf ac ail iaith, ac yna gweld sut y mae systemau technoleg iaith yn gweithio. Mae babanod yn caffael iaith trwy ryngweithio ieithyddol a thrwy wrando ar y rhyngweithio go iawn rhwng eu rhieni, brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o'r teulu. O'r adeg y byddant yn dathlu eu pen-blwydd yn ddwy oed, bydd plant yn cynhyrchu eu geiriau cyntaf ac ymadroddion byr. Mae hyn yn bosib dim ond oherwydd bod gan fodau dynol ragdueddiad genetig i ddynwared ac yna i resymoli'r hyn y maent yn ei glywed. Mae dysgu ail iaith wrth droi'n hŷn yn gofyn am ymdrech fwy gwybyddol, yn bennaf oherwydd nad yw'r person wedi'i 'foddi' mewn cymuned iaith o siaradwyr brodorol. Fel arfer, yn yr ysgol, bydd ieithoedd tramor yn cael eu caffael drwy ddysgu strwythur gramadegol, geirfa a sillafu drwy ddefnyddio driliau sy'n disgrifio gwybodaeth ieithyddol o safbwynt rheolau haniaethol, tablau ac enghreifftiau. Mae pobl yn caffael sgiliau iaith mewn dwy ffordd wahanol: dysgu o enghreifftiau a dysgu'r rheolau iaith sylfaenol. Gan symud yn awr at dechnoleg iaith,

mae'r ddau brif fath o systemau yn 'caffael' galluoedd iaith mewn modd tebyg. Mae dulliau ystadegol (neu rai a 'yrrir' gan ddata) yn cael gwybodaeth ieithyddol o gasgliadau helaeth o destunau enghreifftiol diriaethol neu 'gorpora'. Er ei bod yn ddigonol i ddefnyddio testun uniaith at ddibenion hyfforddi, dyweder, gwirydd sillafu, rhaid i destunau cyfochrog mewn dwy neu fwy o ieithoedd fod ar gael ar gyfer hyfforddi system cyfieithu awtomatig. Mae'r algorithm dysgu peirianyddol wedyn yn 'dysgu' patrymau o ran sut y bydd geiriau, ymadroddion byr a brawddegau cyflawn yn cael eu cyfieithu. Fel arfer, mae'r dull ystadegol hwn yn gofyn am filiynau o frawddegau, a hynny er mwyn rhoi hwb i ansawdd perfformiad. Dyma un rheswm pam y bydd darparwyr peiriannau chwilio yn awyddus i gasglu cymaint o ddeunydd ysgrifenedig ag y bo modd. Mae cywiro sillafu mewn prosesyddion geiriau, a gwasanaethau megis Google Search neu Google Translate, i gyd yn dibynnu ar ddulliau ystadegol. Mantais fawr y dull ystadegol yw bod y peiriant yn dysgu yn gyflym mewn cyfres barhaus o gylchoedd hyfforddi. Dull arall o fynd i'r afael â thechnoleg iaith a chyfieithu awtomatig yn benodol, yw adeiladu systemau yn seiliedig ar reolau. Yn gyntaf, rhaid i arbenigwyr ym meysydd ieithyddiaeth, ieithyddiaeth gyfrifiadurol a gwyddoniaeth gyfrifiadurol amgodio dadansoddiadau gramadegol (rheolau gramadegol) a llunio rhestrau geirfaol (geiriaduron). Mae hyn yn gofyn am lawer iawn o amser a llafur dwys. Mae rhai o'r systemau cyfieithu awtomatig ar sail rheolau wedi eu datblygu'n gyson am fwy na 20 mlynedd. Mantais fawr systemau sy'n seiliedig ar reolau yw bod gan yr arbenigwyr reolaeth fanylach dros sut y bydd yr iaith yn cael ei phrosesu. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i gywiro camgymeriadau yn y meddalwedd mewn modd systematig ac i roi adborth manwl i'r defnyddiwr, yn enwedig pan fydd systemau seiliedig ar reolau yn cael eu defnyddio ar gyfer dysgu iaith. Fodd bynnag, oherwydd cost uchel y gwaith hwn, datblygwyd technoleg iaith seiliedig ar reolau ond ar gyfer ychydig ieithoedd mawr hyd yn hyn. Gan fod cryfderau a gwendidau systemau ystadegol a rhai seiliedig ar reolau yn dueddol o ategu ei gilydd, mae'r ymchwil gyfredol yn canolbwyntio ar ddulliau hybrid sy'n cyfuno'r ddwy fethodoleg. Mae'r posibiliadau o beiriant peiriant cyfieithu *tridarn* ar gyfer y Gymraeg (sy'n seiliedig ar reolau, yn seiliedig ar ystadegau ac yn seiliedig ar enghreifftiau), ynghyd â chof cyfieithu rhannu cyfieithiadau yn eang mewn amser go iawn yn cael eu trafod isod. Dylid nodi, fodd bynnag, bod y dulliau hybrid hyn hyd yn hyn wedi bod yn llai llwyddiannus mewn rhaglenni diwydiannol nag yn y labordy ymchwil. Mae'r ddau brif fath o systemau technoleg iaith yn caffael iaith yn yr un modd ag y bydd bodau dynol yn ei wneud. Fel yr ydym wedi ei weld yn y bennod hon, mae llawer o raglenni a ddefnyddir yn eang yn y gymdeithas gwybodaeth heddiw yn dibynnu'n helaeth ar dechnoleg iaith, yn enwedig yng ngofod economaidd a gwybodaeth Ewrop. Er bod y dechnoleg hon wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae potensial mawr o hyd i wella ansawdd systemau technoleg iaith. Yn y penodau nesaf, disgrifir rôl y Gymraeg yng nghymdeithas gwybodaeth Ewrop a'r byd, ac asesir ei chefndir cymdeithasol-ieithyddol a chyflwr cyfredol technoleg iaith ar ei chyfer.

3

Y GYMRAEG YN Y GYMDEITHAS GWYBODAETH EWROPEAIDD

3.1 FFEITHIAU CYFFREDINOL

Mae i'r Gymraeg, (iaith Geltaidd sy'n gysylltiedig â Llydaweg, Cernyweg, Gwyddeleg, Gaeleg yr Alban a Manaweg) hanes tebyg i lawer arall o ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol eraill ar draws Ewrop yn sgil yr oleuedigaeth, hy polisïau canoli'r wladwriaeth yn arwain at ddirywiad demograffig sydyn ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, wedi'i ddilyn gan arafu yn y gostyngiad yn y 1970au. Yn achos y Gymraeg, roedd canlyniadau'r cyfrifiad dengmlyneddol diweddaraf (2011) [9] yn dangos bod 19% o boblogaeth Cymru (562,000) yn nodi eu gallu i siarad Cymraeg, gostyngiad mewn niferoedd absoliwt o 20,400 ar y cyfrifiad blaenorol (2001). Dylid nodi, fodd bynnag bod Cyfrifiad 2001 yntau wedi dangos cynydd o 80,000 person ar gyfrifiad 1991. Byddai felly'n ymddangos, o'r sampl graddfa fawr a ddarperir gan y Cyfrifiad, bod y Gymraeg mewn sefyllfa lawer mwy diogel o ran ei ffigurau demograffig lefel uchaf na llawer o'r ieithoedd eraill yn y byd. Ond wrth gwrs, gall ffigurau lefel uchel o'r fath ond fod yn arwynebol. Mae'r darlun ei hun yn fwy cymhleth o lawer [10]. Mae'r cymhlethdod hwn yn amlygu ei hun ym mhroffil oedran siaradwyr Cymraeg sydd wrthi'n esblygu. Er enghraifft, o blith y grŵp oedran 10-14, cofnodwyd bod 42.2% yn siarad Cymraeg yng nghyfrifiad 2011, sy'n uwch na'r ffigurau canrif ynghynt yn 1911 (ac yn llawer uwch na'r 16.2% o'r rhai hyn na 65 mlwydd oed a nodododd eu bod yn siarad Cymraeg yn 2011).Yn wir, mae'r dadansoddiad diweddaraf o ffigurau Cyfrifiad 2011 ar gyfer y Gymraeg [11] yn dangos bod 'the number of children speaking Welsh is more than twice that of those aged 16-64 and the over 65s'. hefyd cyhoeddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg 'amcangyfrif rhesymol' [12] y gallai fod 110,000 o siaradwyr Cymraeg yn byw yn Lloegr. Mae goblygiadau cadarnhaol technoleg iaith a thechnoleg yn gyffredinol ar gyfer defnydd iaith a chynnal a chadw cymunedau ieithyddol gwasgaredig o'r fath yn sylweddol. Mae'r sianel teledu Cymraeg, S4/C, yn darlledu yn Lloegr (a gweddill y DU yn Gymraeg). O'r *holl* siaradwyr Cymraeg hynny (100%) mae 44.9% yn byw mewn cartrefi lle mae pawb yn siarad Cymraeg (ffigurau Cyfrifiad 2001—nid yw'r dadansoddiad cyfatebol ar gyfer ffigurau 2011 ar gael adeg llunio'r papur gwyn hwn). Mae'r ystadegau hyn yn golygu bod bywydau teuluol llawer iawn o siaradwyr Cymraeg yn ddwyieithog; mae hyn yn achosi heriau penodol o ran technoleg iaith y gellir newid iaith ei rhyngwyneb a hynny yng nghyd-destun cynllunio ieithyddol statws (h.y. sut y gall pobl sydd â gwahanol alluoedd ieithyddol yn yr un teulu neu uned yn y gweithle rannu cyfrifiadur os yw ei ryngwyneb yn yr iaith 'L' (statws diglosig is). Felly, mae'n hanfodol bwysig ar gyfer cynllunio ieithyddol cymwysedig bod cymaint â phosibl o'r dechnoleg y bydd pobl yn ei defnyddio yn yr ysgol a'r tu hwnt ar gael yn rhad ac am ddim yn Gymraeg, a'i bod yn cael ei gweithredu yn y sefydliadau a'r rhwydweithiau sy'n cael eu defnyddio gan segmentau arbennig penodol. Mae darparu dadansoddiad ystadegol o allu a defnydd y Gymraeg yn ôl oedran y tu hwnt i gwmpas y papur gwyn hwn. Fodd

bynnag, tâl inni nodi po fwyaf rhugl y bydd siaradwr yn y Gymraeg, po fwyaf tebygol ydyw y bydd y siaradwr hwnnw i ddefnyddio'r iaith bob dydd.

Mae goblygiadau cadarnhaol technoleg iaith a thechnoleg yn gyffredinol ar gyfer defnydd iaith a chynnal a chadw cymunedau ieithyddol gwasgaredig yn sylweddol

Nododd Arolygon Defnydd Iaith Gymraeg Bwrdd yr Iaith Gymraeg gynt (2004-2006) (dyma'r ffigurau defnydd iaith fwyaf diweddar sydd ar gael ar y lefel genedlaethol), o'r 588,000 o bobl yr amcangyfrifwyd eu bod yn siarad y Gymraeg, 58% (317,000) a oedd yn ystyried eu hunain yn rhugl yn yr iaith. Dywedodd 76% o'r siaradwyr rhugl eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd, a Chymraeg oedd iaith sgwrs ddiweddaraf 59% o'r siaradwyr rhugl. Yn ystod oes Bwrdd statudol yr Iaith Gymraeg (1993-2012), esblygodd y drafodaeth ym maes Cynllunio Ieithyddol o awydd gorsyml dim ond i gynyddu'r niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg i strategaeth newid ymddygiad fwy soffistigedig yn defnyddio gwersi a ddysgwyd oddi wrth waith Hybu Iechyd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (cf prosiect Twf i berswadio rhieni i siarad Cymraeg â'u plant lle nad oeddent yn meddu ar ddigon o hyder i wneud hynny) ac i gynyddu defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd diglosig 'H' drwy brosiect o'r enw *Mae gen ti ddewis....* Mae *defnydd* yn hytrach na chynyddu niferoedd hefyd yn britho dogfennau strategaeth mwy diweddar Llywodraeth Cymru.

Mae patrymau ymddygiad ieithyddol wedi'u gwreiddio'n ddwfn mewn seicoleg gymdeithasol, hunan-ganfyddiadau, hunanhyder a chanfyddiadau o hunan-effeithiolrwydd ieithyddol (waeth beth yw rhuglder gwirioneddol siaradwr Cymraeg)

Mae patrymau ymddygiad ieithyddol wedi'u gwreiddio'n ddwfn mewn seicoleg gymdeithasol, hunan-ganfyddiadau, hunanhyder a chanfyddiadau o hunan-effeithiolrwydd ieithyddol [13] (waeth beth yw rhuglder gwirioneddol siaradwr Cymraeg). Mae'r elfennau hyn yn codi dro ar ôl tro yn yr ymchwil a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg gynt. Yn gryno, mae canfyddiad unigolyn gyfystyr â'i realiti goddrychol ei hun ac, ar y cyd â nifer o ffactorau eraill, bydd bod dynol yn gweithredu o fewn y paramedrau y bydd ei hunangred un yn eu creu. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth ystyried y defnydd o dechnoleg iaith.

3.2 NODWEDDION Y GYMRAEG

Mae nodweddion ieithyddol cynhenid sy'n gwneud y Gymraeg yn annhebyg i lawer o ieithoedd eraill y gyfres hon papur gwyn (heblaw am ei chyfnither, y Wyddeleg). Gall hyn wneud datblygu, ac yn benodol, croesffrwythloni technoleg iaith yn fwy o her na, dyweder, rhwng Ffrangeg, Sbaeneg a Saesneg.

Mae 29 o lythrennau yn y wyddor Gymraeg (defnyddir sgript Rufeinig). Nid yw'r Gymraeg yn defnyddio 'x' neu 'z', a a defnyddir 'j' fel arfer mewn geiriau benthyg o'r Saesneg). Mae'r iaith yn ymelwa ar gefnogaeth Unicode lawn, ac felly, fel rheol gyffredinol, ni ddylai fod unrhyw broblem o ran dangos y nodau a ddefnyddir mewn unrhyw raglen sy'n gydnaws ag Unicode.

Un o brif hynodion y Gymraeg yw ei bod yn defnyddio deugraffau (dau symbol i gynhyrchu sain benodol). Mae'r rhain fel a ganlyn ch, dd, ff, ng, ll, mh, nh, ph, rh, th. Mae hyn yn cynnig her i'r technolegwyr hynny sy'n gweithredu, er enghraifft, didoli mewn cronfeydd data, gan fod 'Llandeilo' yn dod ar ôl 'Luton' (ill dau yn enwau lleoedd).

Mae'r Gymraeg, fel ei chyfnither y Wyddeleg, yn iaith ffurfdroadol sy'n golygu bod ei ffurfiau ieithyddol yn

newid gan ddibynnu ar (er enghraifft) amser, nifer, a pherson. Cymerwch, er enghraifft y ferf reolaidd 'canu'. Ar ei ffurf lenyddol, gryno, gallai'r ferf gael ei rhedeg fel a ganlyn:

- Canaf
- Ceni
- Cân
- Canwn
- Canwch
- Canant

Fodd bynnag, mae'r bwlch rhwng Cymraeg ysgrifenedig ffurfiol a llafar yn eang. Mae'r iaith lafar yn tueddu tuag at ddefnyddio strwythur mwy cwmpasog (nad yw ei hun heb ei broblemau o ganlyniad i amrywiadau tafodieithol sylweddol yn y strwythur cwmpasog hwnnw). Er enghraifft, yn y ffurf beriffrastig, byddid yn cyfleu 'I am singing/I sing' fel a ganlyn (gan ddibynnu ar y ffurf y bydd y siaradwr yn ei mabwysiadu):

- Dwi'n canu
- Rwy'n canu
- Rwyf yn canu
- Rydw i'n canu
- Fi'n canu (ffurf wedi'i stigmateiddio, ond yn dod yn fwy cyffredin)

Mae'r un amrywiad yn bodoli hefyd ar gyfer personau eraill. Mae diffyg iaith lafar safonol yn achosi problemau, er enghraifft, ar gyfer datblygu systemau adnabod lleferydd, neu yn wir cyfieithu awtomatig neu chwilio ffonig. Rhaid hefyd i'r gronfa ddata lemateiddio berthnasol ddelio â'r broblem hon.

Nodwedd arall o'r ieithoedd Celtaidd yw eu system o dreigladau i gytseiniaid ar ddechrau geiriau. Bydd naw llythyren yn treiglo yn y Gymraeg, a cheir tri math o dreiglad, fel y dangosir yn y tabl isod. Fodd bynnag, mae angen i dechnoleg iaith ystyried y rheolau sy'n achosi i'r treigladau hyn ddigwydd. Er enghraifft, gall y gair 'a' olygu 'yn ogystal â (and)', neu gall fod yn eiryn cyn-ferfol. Yn y lle cyntaf, byddai'n achosi treiglad llaes, yn yr ail, dreiglad meddal. Bydd gwrthrych ffurf gryno'r ferf hefyd yn cymryd treiglad meddal yn y Gymraeg. Felly, er enghraifft, mae i 'Gwelodd fachgen' ystyr wahanol i 'Gwelodd bachgen', a'r treiglad sy'n cyfleu hyn. Bydd enwau lleoedd yn cymryd treiglad trwynol ar ôl 'yn', ond gall 'yn' hefyd fod yn eiryn cyn-ferfol. Sut y bydd technoleg iaith yn gallu gwahaniaethu rhwng y sefyllfaoedd hyn? Mae hyn, wrth gwrs, hefyd yn berthnasol ar gyfer y cyfieithu awtomatig a drafodir yn ddiweddarach yn y papur gwyn hwn.

Er bod technoleg iaith wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cyflymder cyfredol cynydd ac arloesi cynnyrch technolegol yn araf ar gyfer llawer o ieithoedd llai Ewrop. Felly, rhaid i Ewrop gynnal ei rôl arloesol wrth wynebu'r heriau technolegol a grëir gan gymuned amlieithog trwy ddyfeisio dulliau newydd i gyflymu datblygiad ar draws y map. Gallai'r rhain gynnwys datblygiadau a thechnegau megis torfoli cyfrifiadurol. Yn achos penodol y Gymraeg, mae rhai heriau y mae angen eu goresgyn wrth ddatblygu technoleg iaith fel a ganlyn, e.e. mae amrywiaeth tafodieithol yn y Gymraeg yn fawr, er bod siaradwyr pob tafodiaith yn deall ei gilydd. Hyd nes dyfodiad S4/C, y sianel deledu Gymraeg yn 1982, sydd wedi hwyluso dealltwriaeth fewnol yn y gymuned lleferydd Gymraeg, clywyd llawer o gwynion anecdotaidd ynglŷn â'r diffyg gallu i ddeall tafodieithoedd Cymru. Mae hyn yn cynnig her amlwg i dechnoleg, megis adnabod llais. Mae Cymru wedi elwa o iaith ysgrifenedig safonol ers cyfieithiad o'r Beibl gan yr Esgob William Morgan yn 1588. Gwnaeth hyn lawer i warchod undod iaith, lle, er enghraifft, mae ieithoedd eraill, megis y Llydaweg, wedi ffragmenteiddio'n dafodieithoedd gwahanol. Mae crefydd wedi chwarae, hyd yn ddiweddar iawn, rôl gymdeithasegol fawr mewn cadwr-

	Meddal	Trwynol	Llaes
T	D	NH	TH
C	G	NGH	CH
P	B	MH	PH
B	F	M	-
D	DD	N	-
G	[Diflannu]	NG	-
M	F	-	-
RH	R	-	-
LL	L	-	-

aeth ieithyddol yng Nghymru, pan nad oedd y wladwriaeth mor barod i annog dwyieithrwydd ag y mae yn awr.

Gellid rhannu rhai cydrannau a'u hailddatblygu rhwng ieithoedd

Fodd bynnag, mae'r iaith ysgrifenedig safonol a ddisgrifir uchod yn wahanol iawn i Gymraeg llafar (yn ei holl ffurfiau tafodieithol). Felly, er enghraifft, yn achos defnyddio offer trosi llais yn destun, pa offer technoleg iaith a fyddai'n ofynnol er mwyn trawsgrifio'r ymadroddion i greu cofnod ffurfiol mewn Cymraeg ysgrifenedig o'r cyfarfod hwnnw (heb waith ôl-golygu sylweddol)? I ddangos y pwynt hwn, nododd yr Athro Bobi Jones [14] sydd wedi ysgrifennu'n helaeth ar faterion y Gymraeg, yng nghyd-destun Cymraeg ffurfiol 'Yr ydym yn siarad iaith ein mamau, ac yn ysgrifennu iaith neiniau neiniau ein hen neiniau!' Ar hyn o bryd, prin yw'r ddarpariaeth ffurfiol ar gyfer hyfforddi siaradwyr Cymraeg fel ieithyddion cyfrifiadurol. Mae'r setiau angenrheidiol o sgiliau technolegol, rhaglennu Cymraeg cywir ac ieithyddiaeth gyfrifiadurol yn brin. Yn aml bydd yn anodd penodi staff i swyddi *creu* cynnwys hyd yn oed (er enghraifft, ar gyfer gwefannau) a chanddynt ddigon o sgiliau iaith ac *ysgrifennu copi*.

Ceir arbedion mewn costau, cynnydd mawr o ran cysondeb a gostyngiad o ran cyfieithu ailadroddus drwy rannu Cofion Cyfieithu

Mae prosiectau Ewrop-eang megis META-NET yn dangos yr arbedion maint mawr y gellir eu canfod drwy fynd i'r afael â phroblemau tebyg llawer o ieithoedd mewn un lle. Yn ddiau, dyma gyfle i'r Gymraeg, ac ieithoedd llai eraill. Ac er nad yw llawer o ieithoedd Ewrop yn ramadegol debyg, gellid rhannu rhai cydrannau a'u hailddatblygu rhwng yr ieithoedd hynny *sy'n* gysylltiedig. Dylid defnyddio hefyd lawer o dechnolegau generig ac, o bosibl, eu rhannu eu pensaernïaeth, ar gyfer ieithoedd Ewrop, megis:

- Cofion cyfieithu sy'n seiliedig ar gwmwl
- Cyfieithu awtomatig hybrid (wedi ei gysylltu â'r cofion cyfieithu a ddisgrifir yn fanylach yn y papur gwyn hwn)

O ran y cyfleoedd ar gyfer y Gymraeg y gall technoleg iaith eu darparu, gellir ystyried:

- Y cyfalaf cymdeithasol a allai ddeillio o brosiectau torfoli yn y sector gwirfoddol, a'r cyfalaf cymdeithasol a ddaw o greu cynnwys ar y cyd yn y Gymraeg
- Arbedion mewn costau, cynnydd mawr o ran cysondeb a gostyngiad o ran cyfieithu ailadroddus drwy

rannu Cofion Cyfieithu yn y sector cyhoeddus ar raddfa fawr

- Gall synthesis lleferydd ddarparu cymorth ar gyfer y rhai sy'n dysgu Cymraeg nad oes ganddynt fynediad bob dydd i siaradwyr yr iaith
- O ran yr agenda cynhwysiant, bydd darllenwyr sgrin iaith Gymraeg yn cynyddu mynediad i'r rhai sydd â nam ar eu golwg i gynnwys a gwasanaethau iaith Gymraeg.

3.3 DATBLYGIADAU DIWEDDAR

Bu i athroniaeth cenedlaetholdeb rhamantaidd yn sgil yr oleuedigaeth wedi amlygu ei hun wrth greu gwladwriaethau cenedl monolithig sydd, er mwyn bod yn fonolithig, wedi gweithredu polisïau canoli, unffurfio a oedd yn gostwng (neu mewn rhai achosion, yn dileu) amrywiaeth ieithyddol mewnol. Mae agweddau sosioeicolegol y diglosia a grëwyd o'r herwydd ar gyfer technoleg a swyddogaethau 'modern' hefyd wedi eu hesbonio. Fodd bynnag, yn ystod traean olaf yr 20 fed datblygodd mudiad byd-eang o blaid *glocaleiddio*, a oedd yn rhoi pris mawr ar elfennau lleol ond eto yn meddu ar fyd-olwg byd eang. Gwelodd yr adfywiad hwn gynnydd mewn diddordeb mewn ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol. Yn achos y Gymraeg, fe wnaeth anufudd-dod sifil eang ledaenu a phrotest ddi-drais (yn bennaf, yn y blynyddoedd cynharach, ar ran Cymdeithas y Gymraeg [15]) sicrhau consesiynau gan y Llywodraeth. Cafwyd deddfwriaeth arall hefyd yn sgil hynny:

- Deddf yr Iaith Gymraeg (1967), a ganiataodd i weinidogion ragnodi fersiynau swyddogol o ffurflenni yn y Gymraeg, defnydd cyfyngedig o'r Gymraeg yn y system llysoedd a nifer o ddarpariaethau eraill.
- Deddfau Darlledu (1981 a 1982) a arweiniodd at sefydlu S4/C, y sianel deledu Gymraeg. Mae S4/C bellach yn ddarlledwr aml-lwyfan digidol arloesol sy'n cynnwys cynulleidfaoedd yn ei rhaglenni trwy gyfryngau cymdeithasol.
- Deddf Addysg 1988 a wnaeth y Gymraeg yn bwnc craidd yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru (nid oedd yr iaith hyd hynny wedi'i dysgu'n orfodol yn y system ysgolion, ac nid oedd llawer o ysgolion yn ei dysgu o gwbl).
- Bwrdd Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg (1988) a sefydlwyd i wneud argymhellion i Weinidogion ynghylch priodoldeb deddfu ar gyfer y Gymraeg. Fe achosodd argymhelliad o'r fath ddrafftio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'r Ddeddf honno, sy'n diddymu llawer o ddarpariaethau Ddeddf 1967 ac a sicrhaodd fod sefydliadau cyhoeddus sy'n gwasanaethu'r cyhoedd yng Nghymru, lle bynnag y maent wedi'u lleoli yn y DU, yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ar sail cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Sicrhawyd hyn gan 'gynlluniau iaith Gymraeg', dogfennau sydd i'w teilwra i amgylchiadau pob sefydliad unigol. Yn ogystal, sefydlodd y Ddeddf Fwrdd yr Iaith Gymraeg statudol i 'hyrwyddo a hwyluso'r defnyddio'r Gymraeg.' Cafodd y Bwrdd ei ddiddymu ym mis Mawrth 2012, gan y ddeddfwriaeth ddiweddaraf a ddisgrifir isod.
- Deddfau Llywodraeth Cymru (1998 a 2006), sy'n caniatáu datganoli pŵer mewn meysydd cyfyngedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn rhoi iddo'r gallu i wneud 'unrhyw beth o fewn ei bŵer' i hyrwyddo'r Gymraeg.
- Ymhlith datblygiadau arwyddocaol eraill mae mudiadau cymdeithas sifil fel Mudiadau Dathlu'r Gymraeg (mudiad ymbarél o fudiadau Cymraeg), Dyfodol i'r Gymraeg, lobi o siaradwyr Cymraeg amlwg a'r Awr Gymraeg; yn ystod yr awr hon anogir siaradwyr Cymraeg, unwaith yr wythnos, i ddefnyddio'r Gymraeg ar Twitter bob wythnos.

- Arsyllfa polisi, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2013 gan Gomisiynydd y Gymraeg, i astudio goblygiadau'r Gymraeg ym mhob maes polisi
- Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sefydliad rhithwir lefel Prifysgol wedi'i ariannu gan y Llywodraeth, sy'n cydlynu darpariaeth Gymraeg yn sefydliadau addysg uwch Cymru. Mae darlithyddiaethau mewn technoleg wedi eu hysbysebu.

Mae llawer o'r datblygiadau uchod, i raddau, yn defnyddio neu'n creu angen am dechnoleg iaith.

3.4 HYRWYDDO A RHEOLEIDDIO IAITH

Un o'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol ym mholisi iaith yng Nghymru fu caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru Gymhwysedd Deddfwriaethol i greu deddfwriaeth mewn materion sy'n ymwneud â sawl agwedd ar y Gymraeg. Fe wnaeth hyn alluogi Llywodraeth Cymru i gyflwyno un o brif bileri ei Gytundeb Clymblaid 'Cymru'n Un', h.y. i ddrafftio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Mesur yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i ddiddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ac i ad-drefnu ei swyddogaethau. Swydd Comisiynydd y Gymraeg oedd un o brif elfennau'r ddeddfwriaeth hon. Daeth y Comisiynydd i fodolaeth ym mis Ebrill 2012. Mae gan y Comisiynydd bŵer i orfodi cydymffurfiaeth gyfreithiol â chyfres newydd o 'Safonau Iaith Gymraeg', y bwriedir iddynt gymryd lle'r 541 Cynlluniau Iaith Gymraeg sydd ar waith, prif offeryn Deddf yr Iaith Gymraeg ar hyn o bryd. Mae'r safonau hyn yn cael eu rhannu fel a ganlyn:

- Safonau cyflenwi gwasanaethau
- Safonau llunio polisi
- Safonau gweithredu
- Safonau hybu
- Safonau cadw cofnodion

Mae'r safonau hyn wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus gan y Comisiynydd ac yn awr maent wrthi'n cael eu hailddrafftio a'u harchwilio ymhellach gan Weinidogion Cymru. Disgwylir y bydd y drefn yn gwbl weithredol erbyn diwedd 2014. Mae'r safonau wedi eu hategu gan system cydymffurfio fwy trylwyr, gan gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a dirwy o hyd at £5,000 (ac, wrth gwrs, y niwed i enw da a ddaw yn sgil hyn). Y tair safon gyntaf sydd fwyaf perthnasol i dechnoleg iaith. Maent yn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yng Nghymru (drwy ba fodd bynnag) yn cael eu darparu trwy gyfrwng dewis iaith y defnyddiwr terfynol a bod yn rhaid i'r dewis hwnnw gael ei gipio a'i ailddefnyddio yn ei holl ymwneud â'r sefydliad hwnnw (gwefannau, ap, CRM ac ati).

> Gellir dwyn elfennau o'r sector teleffoni o fewn cylch gorchwyl Mesur y Gymraeg, a thrwy hynny ei gwneud yn orfodol i ryngwynebau teleffoni symudol i fod ar gael yn Gymraeg

Bydd safonau llunio polisi yn sicrhau bod yn rhaid i'r Gymraeg gael ei hystyried fel ffactor ym mhob penderfyniad polisi y bydd sefydliad yn ei wneud. E.e. o ran strategaeth tymor-hir TG sefydliad, 'a yw system X ar gael, neu'n debygol o fod ar gael yn y Gymraeg, ac a yw'n cynnal ac yn rheoli dewis iaith'—os nad yw'n gwneud, dylid ei ddiystyru, neu lunio achos dros barhau â'r broses gaffael (gan gadw cofnodion priodol o'r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad i barhau). Mae'r safonau gweithredu yn ystyried gwaith mewnol sefydliad penodol, a byddai'r hawliau a allai godi o'r safonau hyn yn galluogi gweithwyr i gyfathrebu â'i gilydd yn Gymraeg heb osod rhwystr rhag hynny, a hynny â chefnogaeth statudol lawn. Mae technoleg yn hwylusydd allweddol ar gyfer hyn a disgwylir cynnig gweithredol, er enghraifft, o wasanaeth neu ddarpariaeth (o ran yr ochr weinyddol

a chynnwys) mewn rhaglenni o'r fath fel systemau rheoli cynnwys a rhyngwynebau TG. Mae'r Mesur hefyd yn caniatáu ar gyfer elfennau pwysig o'r sector telathrebu i gael eu dwyn o fewn ei gylch gorchwyl yn ddiweddarach a thrwy hynny ei gwneud yn ofynnol, er enghraifft, i ryngwynebau teleffoni symudol fod ar gael yn y Gymraeg.

Yn olaf fel cefndir strategol i'r fframwaith polisi sy'n effeithio ar dechnoleg iaith yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen Strategaeth Iaith sylweddol (a hynny wedi cyhoeddi dogfen Strategaeth ar gyfer Addysg Gymraeg yn barod) a gyhoeddwyd o dan y teitl *Iaith Fyw: Iaith Byw*. [16] Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer Cymru ddwyieithog y mae'n dymuno ei gweld yn y dyfodol, ac mae Gweinidogion wedi datgan sawl gwaith yn gyhoeddus y bydd cynyddu'r defnydd o ddarpariaeth ieithyddol sydd ar gael yn un o brif sylfeini athronyddol y strategaeth honno. Mae'r athroniaeth hon yn cael ei hamlinellu, a'i harchwilio, yng nghyd-destun y ddarpariaeth TG sydd eisoes ar gael yn y Gymraeg, isod. Mae'r strategaeth yn rhagweld yn 'cynrychiolaeth gref o'r Gymraeg ar draws y cyfryngau digidol' ac yn neilltuo un o'i chwe phennod i 'Isadeiledd' ar gyfer yr iaith, lle yr eir i'r afael â thechnoleg iaith. Dyma dargedau strategol y bennod honno, gan nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu drwy:

- annog darparwyr gwasanaeth y sector preifat mawr, gan gynnwys banciau, manwerthwyr, cwmnïau ffôn symudol, datblygwyr meddalwedd a chaledwedd, ac eraill i ddatblygu gwasanaethau, rhaglenni a rhyngwynebau ar-lein drwy gyfrwng y Gymraeg
- hwyluso datblygu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer y cyfryngau rhwydweithio cymdeithasol a ddefnyddir yn gyffredin, gan gynnwys meddalwedd cod agored
- darparu, o bosibl ar sail gyfatebol, cyllid cychwynnol ar gyfer mentrau fel y rhain ar sail gynyddrannol dros gyfnod o amser
- datblygu consensws mewn meysydd blaenoriaeth lle mae angen buddsoddiad technolegol

Sefydlwyd y Gweithgor Gweinidogol yn gynnar yn 2012 a chyfarfu sawl gwaith i drafod Strategaeth ddrafft a Chynllun Gweithredu ar gyfer y Gymraeg a thechnoleg. Mae'r strategaeth [17] yn yn ymdrin yn fanwl â'r holl themâu uchod, ac yn rhoi pwyslais sydd i'w groesawu ar greu cynnwys, a fydd, wrth gwrs, yn asio'n gryf gyda'r offer a themâu technoleg iaith a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn achos y Gymraeg. Mae'r Strategaeth, yn seiliedig ar drafodion y Gweithgor ac yn cynnig pum maes gweithredu:

- Marchnata a chodi ymwybyddiaeth
- Dylanwadu ar gwmnïau meddalwedd mawr
- Annog datblygu pecynnau meddalwedd newydd a gwasanaethau digidol drwy gyfrwng y Gymraeg
- Annog creu a rhannu, a defnyddio cynnwys digidol Cymraeg
- Rhannu arfer gorau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector.

Bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith drwy gyllid, anogaeth a deddfwriaeth gan y Llywodraeth.

Er mwyn gwireddu gweledigaeth y Llywodraeth o Gymru ddwyieithog, rhaid i'r Gymraeg fod â lle haeddiannol ym myd technoleg, ac mae angen dull gweithredu strategol, hirdymor i sicrhau hyn. Fel y gwelwyd, mae hyn ar waith. Mae ystyriaethau eraill hefyd yn dylanwadu ar rôl a sefyllfa gyfreithiol y Gymraeg. O fewn y degawd diwethaf, daeth y Gymraeg yn rhan o'r agenda cydraddoldeb ond eto nid yw'n ymddangos yn amlwg o'i chymharu â meysydd cydraddoldeb eraill yn seiliedig ar hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu anabledd. Un ffordd o gyfrannu at hollbresenoldeb y Gymraeg mewn technoleg oedd cyhoeddi canllawiau manwl, technegol a fyddai'n darparu cyngor ar sut i greu meddalwedd neu wefannau amlieithog, gan bwysleisio'r angen am newid

iaith yn hawdd. Ym mis Ebrill 2006, lansiodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg *Ganllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* cynhwysfawr, [18] (ar yr un diwrnod â'r ddogfen Strategaeth gyntaf ar gyfer TG a'r Gymraeg [19]) a'u dosbarthu i bob sefydliad a oedd â Chynllun Iaith statudol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Wedyn, cynhaliodd nifer o seminarau ar gyfer ymarferwyr technegol i roi cyhoeddusrwydd i'r safonau, un yr un yng ngogledd a de Cymru, ac un arall yn Llundain (yn bennaf ar gyfer Cyrff y Goron â Chynllun Iaith o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993). Y gobaith oedd y byddai'r cyngor a roddwyd yn y ddogfen hon, a'r fframweithiau monitro a ddefnyddir i dracio sut y'i gweithredir, yn gwella darpariaeth ddwyieithog gwasanaethau electronig o bob math, gan wella ar y perfformiad a nodir yn nau *Giparolwg* o wefannau sector cyhoeddus y Bwrdd a gynhaliwyd yn 2001 [20] a 2003 [21]. Ym mis Awst 2009, lansiodd y Bwrdd Gynllun Achredu technegol [22] ar gyfer y ddogfen safonau ar ei wefan. Mae'r cynllun hwn, sy'n anelu at staff technegol medrus TG mewn sefydliadau â Chynllun Iaith o dan Ddeddf 1993 (ac unrhyw sefydliad arall sy'n dymuno darparu gwasanaethau TG dwyieithog) y Gymraeg, yn troi'r *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* i ffurf cwestiwn, gan alluogi'r staff technegol hynny i ganfod yn hawdd a yw system benodol yn cydymffurfio ac yn cyflenwi dewis iaith ar sail cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Y bwriad yw y byddai canlyniadau'r cwestiynau hyn yn cael eu defnyddio fel dangosyddion diacronig ar gyfer gwella gwasanaethau TG dwyieithog. Diweddarwyd y ddogfen hon, a'i hail-weithio fel un o'r dogfennau cyngor cyntaf a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2012. Bydd holl ddogfennau cyngor y Comisiynydd, maes o law, yn cael eu cyhoeddi fel Codau Ymarfer dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gyda sefydliadau yn gorfod profi sut y maent wedi rhoi 'sylw dyledus' i'r codau hyn i gydymffurfio â'r drefn safonau a ddisgrifir uchod.

3.5 HYFFORDDIANT IAITH A THECHNOLEG YM MYD ADDYSG

Mae ar faes hyfforddiant defnyddiwr a meithrin gallu trwy gyfrwng y Gymraeg ym maes TG angen sylw penodol. Mae amryw o switiau hyfforddi yn bodoli, ar ffurf electronig ac ar bapur, yn eu plith y *Drwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd* [23] a phrosiect *Llythrennedd Digidol* Microsoft, sy'n defnyddio terminoleg safonol a chipluniau fersiynau Cymraeg ei gynhyrchion ei hun. Gan fod y byd TG yn symud mor gyflym, bydd angen diweddariadau i'r math hwn o hyfforddiant yn rheolaidd, ac mae pecynnau hyfforddi eraill wrthi'n cael eu paratoi. O ran hyfforddiant ar gyfer sefydliadau i ddarparu technoleg iaith, fe wnaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg gylchredeg Nodyn Cyngor o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, i bob un o'r 541 o sefydliadau a chanddynt gynllun iaith, gan egluro'r ddarpariaeth bresennol o ran technoleg iaith, gan nodi'r mythau a amlinellir yn y papur gwyn hwn—a'u chwalu. Mae modiwlau israddedig ar gael i wahanol raddau mewn gwahanol sefydliadau ond nid ymhob un.

3.6 AGWEDDAU RHYNGWLADOL

Mae'r Gymraeg wedi'i chwmpasu gan ddarpariaethau yn y Confensiwn Fframwaith ar gyfer Amddiffyn Lleiafrifoedd Cenedlaethol ac mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau 52 o gymalau Siarter Ewrop ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol gyfer y Gymraeg. Mae hefyd wedi'i chynrychioli ar y Rhwydwaith ar gyfer Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (y mae ei brif swyddfa yng Nghaerdydd).

3.7 Y GYMRAEG AR Y RHYNGRWYD

Mae ffigurau Llywodraeth Cymru [24] ar gyfer 2012 yn dangos bod gan 70% o gartrefi Cymru fynediad i'r rhyngrwyd. Mae hyn yn cyfateb i tua 77% o bobl 18 oed neu'n hŷn a chanddynt fynediad i'r rhyngrwyd yn y cartref. Dywedodd 73% o bobl eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd yn y cartref, gwaith neu mewn man arall; roedd hyn yn amrywio yn ôl oedran gyda chyfran llawer mwy o bobl o dan 45 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd na'r rhai 45 oed a throsodd. Defnyddwyr y rhyngrwyd o dan 25 mlwydd oedd yn fwy tebygol (41%) na defnyddwyr y rhyngrwyd 65 oed a throsodd (8%) oed i fod wedi cael mynediad i'r rhyngrwyd yng nghartref rhywun arall yn ystod y tri mis diwethaf. Dengys ffigurau diweddarach [25] mai'r ganran o boblogaeth Cymru nad *oedd erioed* wedi defnyddio'r rhyngrwyd oedd 17.5% (o'i chymharu â 14% o boblogaeth y DU yn ei chyfanrwydd. Fodd bynnag, nid oes ffigurau manwl gywir ar gael ynghylch pa iaith y bydd pobl Cymru yn ei defnyddio i gael mynediad i'r rhyngrwyd. Y Gymraeg yw'r 65ain iaith fwyaf cryf ar Wikipedia, yn ôl cynnwys [26] (a chanddi *oddeutu* 49,000 erthygl), sy'n profi hyfywedd ac egni'r gymuned cod agored o lunwyr cynnwys gwirfoddol. Mae nifer o borwyr eisoes â rhyngwyneb ar gyfer y Gymraeg (Internet Explorer, Opera, Firefox), a sawl un arall, heb feddu ar ryngwynebau Cymraeg, ond yn caniatáu i *locale* y porwr gael ei newid i Gymraeg er mwyn awtomeiddio cyflwyno cynnwys Cymraeg. Yn anffodus, er mwyn manteisio ar y ddarpariaeth hon, rhaid gwybod beth yw *locale*, gwybod ymhle y mae, bod am ei ddefnyddio yn Gymraeg, a gwybod sut mae ei newid, a'i newid yn ôl os, er enghraifft, y bydd diweddariad meddalwedd yn ei ailosod. Mae hyn i gyd yn annibynnol ar iaith rhyngwyneb y system gweithredu er enghraifft, Microsoft Windows. Mae rhyngwyneb Cymraeg wedi cael ei ddatblygu ar gyfer Google (chwilio) a Gmail. Y cyfleuster rhyngrwyd a ddefnyddir amlaf yw chwilio'r we, ac mae'n hollbresennol ar bob math o ddyfais a phlatfform. Yn ogystal, mae chwilio ar y we ei hun yn defnyddio neu fe all ddefnyddio ystod o dechnolegau iaith (o wahanol lefelau o soffistigedigrwydd) i wella canlyniadau ac ansawdd yn gyffredinol. Ar wahân i'r bri o fod yn gysylltiedig â brand rhyngwladol mor llwyddiannus, mae rhyngwynebau Cymraeg Google yn darparu mwy na phrofiad rhyngrwyd addas ar gyfer siaradwyr Cymraeg, ond hefyd maent yn adlewyrchu'r angen cynyddol am offer chwilio a gwasanaethau prosesu iaith priodol i ddelio â data'r Gymraeg. Mae'r adran nesaf yn rhoi cyflwyniad i dechnoleg iaith a'i meysydd craidd, ynghyd â gwerthusiad o gefnogaeth gyfredol technoleg ar gyfer y Gymraeg.

4

CYMORTH TECHNOLEG IAITH AR GYFER Y GYMRAEG

Defnyddir technolegau iaith i ddatblygu systemau meddalwedd sydd â'r nod o ymdrin ag iaith ddynol, ac felly yn aml fe'u gelwir yn 'dechnolegau iaith ddynol'. Daw iaith ddynol mewn ffurfiau llafar ac ysgrifenedig. Er mai lleferydd yw'r ffurf hynaf ar gyfathrebu ieithyddol o ran yr esblygiad dynol, bydd y rhan fwyaf o wybodaeth gymhleth yn cael ei storio a'i throsglwyddo drwy'r gair ysgrifenedig. Bydd technolegau testun a lleferydd yn prosesu neu yn cynhyrchu'r gwahanol fathau hyn o iaith, gan ddefnyddio geiriaduron, rheolau gramadegol, a semanteg. Mae hyn yn golygu bod technoleg iaith (TI) yn cysylltu iaith â gwahanol fathau o wybodaeth, yn annibynnol ar y cyfryngau (lleferydd neu destun) y mae'n cael ei fynegi ynddynt. Mae Ffigur 1 yn dangos y tirwedd technoleg iaith. Pan fyddwn yn cyfathrebu, rydym yn cyfuno iaith â dulliau eraill o wybodaeth a chyfryngau cyfathrebu—er enghraifft, gall siarad gynnwys ystumiau a mynegiant y wyneb. Bydd testunau digidol yn cysylltu â lluniau a seiniau. Gall ffilmiau gynnwys iaith mewn ffurf lafar ac ysgrifenedig. Mewn geiriau eraill, mae technolegau lleferydd a thestun yn gorgyffwrdd ac yn rhyngweithio â chyfathrebu amlfodd eraill a thechnolegau aml-gyfryngol. Yn yr adran hon, trafodir prif feysydd defnyddio technoleg iaith ar gyfer y Gymraeg, h.y., gwirio iaith, chwilio ar y we, rhyngweithio lleferydd, a chyfieithu awtomatig. Gall y rhaglenni a'r technolegau sylfaenol hyn gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

- gywiro sillafu
- cymorth i greu cynnwys
- dysgu iaith gyda chymorth cyfrifiadur
- galw gwybodaeth yn ôl
- echdynnu gwybodaeth
- crynhoi testun
- ateb cwestiwn
- adnabod llais
- synthesis lleferydd

Mae technoleg iaith yn faes ymchwil sefydledig a chanddo set helaeth o lenyddiaeth ragarweiniol. Cyn trafod y meysydd uchod, ceir disgrifiad cryno o bensaernïaeth Rhaglen system TI nodweddiadol.

4.1 PENSAERNÏAETH RHAGLENNI

Fel arfer bydd meddalwedd ar gyfer prosesu iaith yn cynnwys sawl elfen sy'n adlewyrchu gwahanol agweddau ar iaith. Er bod rhaglenni o'r fath yn tueddu i fod yn gymhleth, dengys Ffigur 2 bensaernïaeth seml iawn system prosesu testun nodweddiadol. Mae'r tri modiwl cyntaf yn ymdrin â'r strwythur ac ystyr testun a roddwyd:



1: Technoleg iaith yn ei chyd-destun

1. Cyn-brosesu: glanhau'r data, dadansoddi neu gael gwared â fformatio, canfod pa iaith a fewnbynnwyd, ac yn y blaen.
2. Dadansoddiad gramadegol: dod o hyd i'r ferf, ei gwrthrychau, addaswyr ac elfennau brawddegol arall; canfod strwythur y frawddeg
3. Dadansoddiad Semantig: dadamwyso (h.y., canfod ystyr briodol geiriau mewn cyd-destun penodol); penderfynu anaffora (hy, pa ragenwau sy'n cyfeirio at ba enwau yn y frawddeg); cynrychioli ystyr y frawddeg mewn ffordd y gall peiriant ei darllen.

Wedi dadansoddi'r testun, gall modiwlau tasg-benodol berfformio gweithredoedd eraill, megis crynhoi awtomatig ac edrych mewn cronfa ddata. Noder bod pensaernïaeth y rhaglenni wedi'i symleiddio fawr ac wedi ei rhoi mewn ffordd 'ddelfrydol', er mwyn dangos cymhlethdod rhaglenni technoleg iaith mewn ffordd gyffredinol ddealladwy. Yng ngweddill yr adran hon, ceir gorolwg o gyflwr ymchwil ac addysg technoleg iaith ar gyfer y Gymraeg fel y mae heddiw, ynghyd â disgrifiad o ddatblygiadau technoleg iaith Gymraeg yn y gorffennol a'r presennol. Yn olaf, darperir amcangyfrif o offer ac adnoddau technoleg iaith greiddiol ar gyfer y Gymraeg o ran gwahanol ddimensiynau megis argaeledd, aeddfedrwydd ac ansawdd.

4.2 MEYSYDD RHAGLEN CRAIDD

Yn yr adran hon, canolbwyntir ar yr offer technoleg iaith pwysicaf a darperir gorolwgo weithgareddau TG ar gyfer y Gymraeg.

4.2.1 Gwirio Iaith

Bydd pawb sydd wedi defnyddio prosesydd geiriau megis Microsoft Word yn gwybod bod ganddo wirydd sillafu sy'n amlygu gallau sillafu ac yn cynnig cywiriadau. Ddeugain mlynedd wedi i Ralph Gorin greu'r rhaglen gyntaf i wirio sillafu, nid yw gwirwyr sillafu ond yn creu cymhariaeth seml o'r geiriau maent wedi eu hechdynnu, ond maent wedi dod yn gynyddol fwy soffistigedig. Gan ddefnyddio algorithmau ieithyddol ar gyfer dadansoddi gramadegol, maent yn canfod gwallau sy'n gysylltiedig a morffoleg (e.e. ffurfiau lluosog) yn ogystal â rhai sy'n deillio o'r gystrawen, megis berfau ar goll neu wrthdaro wrth gytuno rhwng berf-gorddrych (e.e., **she write a letter* yn Saesneg). Fodd bynnag, ni fydd y rhan fwyaf o wirwyr sillafu a gramadeg yn canfod gwallau yn y testun canlynol [27]:

> I have a spelling checker,
> It came with my PC.
> It plane lee marks four my revue
> Miss steaks aye can knot sea.



2: Pensaernïaeth nodweddiadol ar gyfer prosesu testun

Fel arfer, er mwyn mynd i'r afael â gwallau o'r fath, bydd angen dadansoddi'r cynnwys. Rhaid i'r math hwn o ddadansoddiad dynnu naill ai ar gramadegau sy'n benodol i'r iaith dan sylw, a'r rheini wedi eu codio'n llafurus i'r meddalwedd gan arbenigwyr, neu ar fodel ystadegol. Yn yr achos hwn, bydd model yn cyfrif y tebygolrwydd y bydd gair penodol yn ymddangos mewn safle penodol. Gellri creu model ieithyddol ystadegol yn awtomatig drwy ddefnyddio swm mawr o ddata ieithyddol (wedi'i hanodi). Gelwir hyn yn gorpws testun. Datblygwyd y ddau ddull uchod o gwmpas data'r Saesneg. Ar hyn o bryd, nid oes modd hawdd i drosglwyddo'r naill neu'r llall i'r Gymraeg oherwydd diffyg adnoddau ieithyddol sylfaenol. Ni cheir corpora testun digon mawr, a'r rheini wedi eu hanodi, i hyfforddi model ystadegol, ac ni chafwyd ymchwil ddigonol i amgodio gwybodaeth ieithyddol mewn gramadegau.

Nid yw gwirio iaith yn beth sydd ar gyfer prosesydd geiriau yn unig—mae hefyd yn berthnasol i systemau awduro

Y tu hwnt i'r gwirydd sillafu a gramadeg a chefnogaeth i awduron, mae gwirio iaith hefyd yn bwysig ym maes dysgu-iaith-â-chymorth cyfrifiadur. Dyma faes a fyddai o fydd sylweddol i ddysgwyr y Gymraeg ac ieithoedd bychain eraill.

4.2.2 Gwirwyr sillafu, Gwirwyr Gramadeg a Geiriaduron Cyfrifiadurol

Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau o ran creu cynnwys a ddisgrifir uchod, mae nifer o wirwyr sillafu a gramadeg a geiriaduron cyfrifiadurol wedi eu comisiynu neu noddi gan gymorth grant. Y cyntaf oedd CySill, a gomisiynwyd gan Adrannau Seicoleg ac Ieithyddiaeth Prifysgol Cymru, Bangor. Roedd CySill yn chwyldroadol gan ei fod yn cywiro treigladau cytseiniaid cychwynnol y Gymraeg. Dilynwyd hyn gan Cysgair, geiriadur cyfrifiadurol sy'n atodi wrth raglenni prosesu geiriau, a grëwyd gan Ganolfan Bedwyr Prifysgol Cymru, Bangor. Fe wnaeth Canolfan Bedwyr ddiweddaru'r ddau yn 2004, a'u cynnwys ar un CD o adnoddau cyfrifiadurol Cymraeg, o dan yr enw Cysgliad. Ymysg y gwirwyr sillafu eraill sydd eisoes yn bodoli yn y Gymraeg ceir y canlynol:

- Gwirydd sillafu Cymraeg am ddim i Microsoft Office XP, 2003, 2007, 2010, 2013.
- Gwirydd sillafu Cymraeg am ddim i OpenOffice
- Gwirydd Sillafu Cymraeg ar gyfer Neo Office (Apple Mac)

Mae pwysigrwydd LAD (Language Autodetect), ffordd o adnabod ieithoedd mewn dogfen hyd yn oed yn fwy amlwg mewn lleoliadau dwyieithog. Sut, er enghraifft, byddai system adnabod llais yn adnabod a yw siaradwr newid yr iaith y maent yn ei siarad mewn cyfarfod? Yn



3: Gwirio iaith (uchaf: ystadegol; isaf: ar sail rheolau)

fwy syml, sut mae siaradwr Cymraeg yn llunio dogfennau dwyieithog Cymraeg/Saesneg ac yn eu prawfddarllen yn awtomatig gan y gwiriwr sillafu 'brodorol' heb fod y Gymraeg yn cael ei thagio'n anghywir fel petai'n Saesneg wedi'i chamsillafu? Mae Geiriadur yr Academi Gymreig (Saesneg-Cymraeg) [28] gynt ar bapur wedi'i lansio ar-lein, prosiect mawr a ariennir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac wedi hynny gan Gomisiynydd y Gymraeg.

4.2.3 Bysellfwrdd, marciau diacritig a ffontiau

Agwedd arall ar greu cynnwys yn y Gymraeg a oedd yn achosi anhawster sylweddol i ddefnyddwyr cyfrifiaduron yn y gorffennol oedd diffyg, yn y lle cyntaf, 'ŵ' ac 'ŷ' o'r set nodau safonol. I ddechrau, deliwyd â hyn drwy ddefnyddio ffontiau Cymraeg arbenigol sy'n dynwared y ffontiau system a gynhwyswyd gyda chyfrifiaduron adeg eu creu, ond a oedd yn cynnwys yr acen grom ar 'w' ac 'y'. Fodd bynnag, mae'r rhain yn achosi problemau wrth anfon ffeil i beiriant gwahanol nad yw'r ffontiau hyn wedi eu gosod arno, byddai'r nodau hyn yn cael eu disodli gan nodau Islandeg. Mae'r ffurf gywir o'r ddau nod hyn wedi eu cynnwys yn set nodau safonol Unicode (UTF-8) ers peth amser, gan osgoi'r angen ar gyfer prynu neu lawrlwytho ffontiau arbenigol ar gyfer defnyddwyr PC. Fodd bynnag, ni fu'n ddigon clir sut y dylai defnyddwyr gael mynediad i'r acenion hyn mewn ffordd safonol, gydag unigolion a sefydliadau gwahanol neu hyd yn oed yr un sefydliadau yn dewis llwybrau byr bysellfwrdd gwahanol, neu ddefnyddio rhifau cod i osod marciau diacritig i mewn i ffeiliau. Mae'r broblem hon o ddiffyg trawiadau bysell diacritig safonol bellach wedi'i datrys, ar gyfer defnyddwyr PC, mewn dwy ffordd: (1) gan Sgema Bysellfwrdd Estynedig Microsoft ar gyfer y Deyrnas Unedig, a (2) gan gynnyrch poblogaidd rhad ac am ddim o'r enw 'To Bach' (To) a grëwyd gan Dechnoleg Draig.

4.2.4 Technoleg Lleferydd a'r Gymraeg

Gall technoleg llais gynnwys cynhyrchu llais synthetig neu adnabyddiaeth o lais dynol gan system TG. Mae technoleg o'r fath eisoes yn dechrau treiddio i'n bywydau bob dydd (mae sawl canolfan galw wedi awtomeiddio llawer o'r prosesau maent yn eu defnyddio, mae rhai ffonau symudol sy'n gallu derbyn e-bost eisoes yn cynnig cyfleuster llais synthetig i ddarllen negeseuon e-bost yn uchel i'r derbynnydd). Gall technoleg lleferydd fod yn gaffaeliad i unrhyw raglen TG benodol. Gall symleiddio mynediad i ddata, cyflymu mewnbynnu data a chaniatáu rheolaeth ddi-ddwylo ac, yn arwyddocaol, darparu dilysu biometrig goddefol seiliedig-ar-lais ar gyfer mynediad i wasanaethau diogel megis bancio. Mae'n amlwg hefyd fod iddi ganlyniadau enfawr i'r rhai sydd â nam ar eu golwg. Gan fod angen amser sylweddol i amgodio corpws lleferydd i unrhyw iaith, yn hanesyddol, yr ieithoedd mwy sydd wedi elwa ar y buddsoddiad mwyaf, gyda'r ieithoedd lleiafrifol yn tueddu i gael eu gadael ar ôl. Gan fod arwyddion yn dangos y bydd technoleg lleferydd drwy gydgyfeiriant â rhag-

lenni bob dydd, yn dod yn rhan fwyfwy pwysig o fywyd bob dydd yn y dyfodol, mae'n bwysig bod y Gymraeg yn sicrhau troedle cryf yn y maes hwn. O sylwi ar bwysigrwydd strategol y maes, fe wnaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg gyd-ariannu, gydag INTERREG, brosiect WISPR [29] (Welsh and Irish Speech Processing Resources) yng Nghanolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor. Wedi hynny, esblygodd y prosiect hwn yn Brosiect SALT [30]. Yn gynnar yn 2010 cafwyd lleisiau o ansawdd uwch, yn seiliedig ar y lleisiau gwreiddiol sylfaenol. Creodd prosiect cychwynnol WISPR beiriant SAPI sylfaenol (Speech Application Programming Interface) ar gyfer y Gymraeg. Ymhlith llawer o ffyrdd eraill, gall peiriannau synthesis lleferydd gael eu defnyddio i drosi geiriau o ddogfen gyfrifiadurol (e.e. dogfen prosesydd geiriau, tudalen gwe), neu ryngwyneb yn lleferydd clywadwy i'w glywed drwy system sain y cyfrifiadur. Byddai hyn yn ddefnyddiol i bobl sydd angen neu eisiau dilysu llafar o'r hyn y maent yn ei weld mewn print. Wrth gynnal Eisteddfod Genedlaethol Cymru ym mis Awst 2010, lansiwyd fersiwn alffa o ddau lais synthetig (un gwrywaidd, un benywaidd) o ansawdd uchel. A hwythau wedi'u hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru, a hefyd gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB), fe gafodd cynulleidfa'r lansiad eu symud gan ansawdd uchel y lleisiau, a ddarllenodd ddarn o nofel. Mae'r ffaith mai fersiwn alffa a oedd yn cael ei lansio yn golygu y bydd tonnau dilynol o wella (yn seiliedig ar adborth torfol drwy ryngwyneb gwe).

4.2.5 Adnabod llais

Mae a wnelo adnabod llais, (fel y'i diffinnir gan dîm Prosiect WISPR) neu 'lleferydd-i-destun', â dal a digideiddio tonnau sain o feicroffon, eu trosi i unedau iaith sylfaenol neu ffonemau, creu geiriau o'r ffonemau, a dadansoddi cyd-destun y geiriau i sicrhau sillafiad cywir am eiriau sy'n swnio'n fel ei gilydd (megis dear a deer yn Saesneg).Yna bydd y cynnyrch yn cael ei ddangos ar y sgrin fel testun. Unwaith eto, er y gall y manylion technegol ymddangos y tu hwnt i'r person lleyg, ni ddylid tanbrisio cyrhaeddiad ac arwyddocâd y cyfleuster hwn, gan fod llawer o systemau gweithredu cyfrifiadurol a setiau llaw *eisoes* yn cynnig cyfleusterau adnabod llais allan-o'r-bocs. Mae hyn yn debygol o gynyddu gyda threigl amser. Nid yw'n amhosib dychmygu y byddwn yn archebu bwyd, yn gwneud ein bancio a llu o wasanaethau eraill drwy gyfrwng adnabod llais yn y dyfodol. Mae ap Google Translate eisoes yn caniatáu i'r defnyddiwr ddefnyddio adnabod lleferydd, yn gysylltiedig â synthesis lleferydd trwy gyfrwng cyfieithu awtomatig. Gan gydnabod pwysigrwydd datblygu'r maes hwn, hefyd rhoddodd y Bwrdd grant i greu peiriant Adnabod Llais sylfaenol. Mae cydrannau'r prosiect hwn, a phrosiect synthesis lleferydd WISPR, ar gael am ddim ar-lein.

Ym mis Mai 2010, cyhoeddodd Panel Adolygu Annibynnol o Wasanaethau Dwyieithog Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei adroddiad terfynol [31]. Ymhlith ei argymhellion lu, bu technoleg yn flaenllaw, gydag argymhelliad y dylid datblygu mwy o dechnoleg lleferydd er mwyn, yn y tymor hir, creu trawsgrifiadau o gyfarfodydd yn lled awtomatig. Nodwyd hefyd ddymuniad y Cynulliad i fod yn arweinydd yn y maes o ran darpariaeth ddwyieithog, drwy ddefnyddio technoleg.

Nid yw Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gymwys i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiwn y Cynulliad (y Corff Corfforaethol sy'n gyfrifol am ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau i gefnogi Aelodau'r Cynulliad).

Cafodd Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) (Cymru) ei gymeradwyo gan y Cynulliad ar 3 Hydref 2012. Prif nod y Ddeddf yw gosod dyletswydd statudol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiwn y Cynulliad i gydnabod y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol ac i drin y ddwy iaith yn gyfartal.

Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar y Com-



4: System deialog yn seiliedig ar leferydd

isiwn i fabwysiadu a chyhoeddi Cynllun Ieithoedd Swyddogol [32] sy'n nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i gydymffurfio â'i ddyletswyddau fel yr amlinellir yn y Ddeddf.

Cymeradwywyd y Cynllun gan y Cynulliad ar 17 Gorffennaf 2013. Mae'n diffinio'r safonau a'r gwasanaethau y gall Aelodau a'r cyhoedd eu disgwyl gan Gomisiwn y Cynulliad ac yn nodi pedwar maes allweddol ar gyfer gweithredu.

Bydd Comisiwn y Cynulliad yn:

- darparu cymorth arloesol, wedi'i deilwra, i alluogi pobl i ddefnyddio'r ddwy iaith yng nghyd-destun busnes y Cynulliad;
- buddsoddi'n sylweddol mewn technoleg fel ffordd o drawsnewid y ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog tra'n darparu gwerth am arian;
- datblygu sgiliau a hyder staff y Comisiwn i ddefnyddio'u Cymraeg; a
- rhannu profiadau o ddarparu gwasanaethau dwyieithog gyda sefydliadau eraill yng Nghymru a deddfwrfeydd eraill a cheisio dysgu ganddynt.

Ar hyn o bryd, mae defnydd y Cynulliad o dechnoleg cyfieithu yn gyfyngedig. Mae'r Google Translator Toolkit yn cael ei ddefnyddio gan gontractwyr allanol y Cynulliad i gyfieithu Cofnod y Trafodion ac ategir hyn gan waith golygu a phrawfddarllen i gywiro a mireinio allbwn y peiriant. Yn fewnol, mae Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi'r Cynulliad yn defnyddio meddalwedd cof cyfieithu Wordfast, sydd wedi arwain at gynnydd mewn allbwn.

Mae'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn ymrwymo'r Cynulliad i wneud y defnydd gorau o dechnoleg i gyfieithu dogfennau yn gyflymach ac yn fwy effeithlon. Mae wedi dechrau gwneud gwaith i archwilio potensial a manteision buddsoddi mewn system cyfieithu peiriant pwrpasol. Fel rhan o'r gwaith hwn, maent yn ystyried sut y gall cyfieithu awtomatig gael ei ddefnyddio nid yn unig gan y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi, ond gan aelodau eraill o staff y Cynulliad, staff cymorth Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad, a'r posibilrwydd o'i wneud ar gael i sefydliadau y tu hwnt i'r Cynulliad.

4.2.6 Integreiddio Cyfieithu awtomatig a Thechnoleg Lleferydd

Un maes sy'n haeddu ystyriaeth yn y tymor canolig yw integreiddio technoleg llais gyda'r dechnoleg cyfieithu awtomatig a ddisgrifiwyd uchod. Byddai'r sefyllfa ddelfrydol yn galluogi dau o bobl, y naill yn siarad Cymraeg, a'r llall yn siarad Saesneg i sgwrsio â'i gilydd. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy adnabod llais, bwydo i mewn peiriant cyfieithu awtomatig, ac allbynnu'r cyfieithiad perthnasol drwy gyfrwng synthesis lleferydd. Mae technolegau integreiddiol o'r fath eisoes yn cael eu cynhyrchu mewn sawl sefydliad, er enghraifft, yr Athro

Alex Waibel o Brifysgolion Carnegie Mellon a Karlsruhe yn benodol. Mae'n bosibl y bydd technoleg wedi'i hawtomeiddio o'r fath wedi'i chynnwys yn y systemau gweithredu y byddwn yn eu defnyddio bob dydd. Mae angen, felly, i ieithoedd llai fel y Gymraeg gael eu cynnwys yn y datblygiadau hyn. Mae potensial integreiddio o'r fath ar gyfer gwasanaethau Cymraeg, a chyfarfodydd dwyieithog, yn amlwg, a hynny mewn oes a reolir fwyfwy gan TG.

4.2.7 Cyfieithu a Therminoleg

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am bolisi cyfieithu yng Nghymru ac adeg llunio'r papur gwyn hwn roedd wrthi'n cynnal adolygiad annibynnol o'r proffesiwn a'r anghenion strategol. Pwrpas yr adran hon, felly, yw delio â *thechnoleg* iaith a chyfieithu, a'r cyfraniad y gall technoleg ei wneud i ddiwydiant cyfieithu'r Gymraeg neu unrhyw iaith arall a chanddi sefyllfa sosioieithyddol debyg.

4.2.8 Cyfieithu â Chymorth Cyfrifiadur

Dyma'r term ehangaf a ddefnyddir i ddisgrifio maes rhaglenni technoleg iaith sy'n awtomeiddio neu'n cynorthwyo'r weithred o gyfieithu testun o'r naill iaith i'r llall. Maent yn effeithiol iawn o ran gwella cynhyrchedd cyfieithu, yn enwedig o ran hwyluso cyfieithu cyflym iawn o destunau gwreiddiol ailadroddus. Dyma rai o'r mathau mwyaf cyffredin o gof cyfieithu: SDLX Trados, Déjà Vu, Wordfast ac yn fwyaf diweddar, y Google Translator Toolkit, Pootle, Transifex a OmegaT. Mae meddalwedd cof cyfieithu yn cael ei ddefnyddio eisoes gan ystod o sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt, yn eu plith, Llywodraeth Cymru, Prifysgol Caerdydd (drwy model torfoli) a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ei hun. Un o brif rinweddau technolegau o'r fath yw y gall cyfieithwyr rannu gwaith cyfieithu ei gilydd, waeth beth fo'u lleoliad daearyddol, drwy gronfeydd data canolog o gofion cyfieithu a wasanaethir i gyfrifiaduron unigol drwy rwydweithiau corfforaethol neu hyd yn oed y rhyngrwyd. Mae hyn yn golygu y gall cyfatebiaethau 100% o segmentau'r testun gwreiddiol gael eu hailddefnyddio, gan arwain at gynnydd yng nghysondeb a chyflymder cyfieithu (am wybodaeth ar gysondeb terminoleg, gweler isod). Gall rhaglenni cof cyfieithu hefyd gynnig cyfieithiadau o gyfatebiaethau rhannol ('fuzzy') a geir yn eu cronfeydd data. Mae hyn hefyd yn cynyddu cyflymder y cyfieithu. Prif gafeat y dull hwn, wrth gwrs, yw bod ansawdd y cyfieithiadau a rennir drwy gofion cyfieithu a storir yn ganolog yn dibynnu ar ansawdd a chysondeb yr holl gyfieithiadau hynny a fwydir i mewn iddynt. Felly, yn amlwg mae angen rheolaeth olygyddol lefel uchel ar brosiectau ar raddfa fawr o'r fath. Un peth y dylid ei bwysleisio'n gyson [33] yw bod mawr angen cyfieithwyr sy'n fodau dynol, a nod y dechnoleg a ddisgrifir yma yw cynyddu eu cynhyrchedd a'u cysondeb—ac nid i'w disodli!

4.2.9 Rheoli Terminoleg

Unwaith eto, dylid nodi ar ddechrau'r adran hon nad lle'r papur cyfredol yw delio â maes safoni termau *fel y cyfryw*, dim ond i hwyluso lledaenu terminoleg safonol drwy TG fel un o amcanion y broses normaleiddio iaith. Mae technoleg yn bodoli eisoes, fel yn achos y meddalwedd cof cyfieithu a ddisgrifir uchod, i drosglwyddo rhestri safonol o derminoleg i ddefnyddwyr terfynol yn awtomatig. Mae hyn yn bwydo i mewn i raglenni rheoli terminoleg sy'n gysylltiedig â rhai rhaglenni cof cyfieithu. Mae rhai rhaglenni o'r fath hefyd yn cynnig cyfleusterau dadamwyso sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol i ddefnyddwyr, e.e. mae'n bosibl na fydd fersiwn Gymraeg Mill Street yn Aberystwyth (Dan Dre), yr un cyfieithiad â Mill Street mewn unrhyw dref arall yng Nghymru (mae 'Stryd y Felin', wrth reswm, yn gyfieithiad gramadegol a chywir, ond ni chaiff ei ddefnyddio ar gyfer enw'r stryd yn Aberystwyth). Mae gan y gair 'access' lawer o ystyron, gan gynnwys fel enw sy'n disgrifio'r

lleoliad lle mae eir i mewn i adeilad, yn ogystal â berf sy'n golygu'r camau gwirioneddol a gymerir i gael mynediad i'r adeilad, ac yn wir cael mynediad i wybodaeth. Gall 'Mole' fod yn anifail tanddaearol bach sy'n effro liw nos, yn berson sy'n rhyddhau gwybodaeth o sefydliad, neu nifer eithriadol o fawr a ddefnyddir fel arfer ym myd Cemeg; gallai'r holl ystyron hyn gael eu gwahaniaethu drwy gyfleusterau dadamwyso. Po fwyaf maint, ansawdd a chysondeb cof cyfieithu, uchaf yw'r tebygolrwydd y bydd llwyth gwaith y cyfieithydd yn cael ei gyflawni mewn cyfnod byrrach. O feddu ar ymwybyddiaeth o'r posibiliadau y gall meddalwedd TM eu cynnig i ieithoedd lleiafrifol, yn gynnar yn 2010. Rhyddhaodd gyfanswm o tua hanner miliwn o eiriau o destun dwyieithog, wedi'u prawfddarllen a hynny ar ffurf TMX (safon y diwydiant ar gyfer cyfnewid cofion yn agored) gan gynnwys:

- Cof Cyfieithu Adnoddau Dynol
- Cof Cyfieithu Bwydlenni
- Cof cyfieithu a grëwyd drwy alinio gwefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg (sy'n cynnwys llawer o eirfa'r sector cyhoeddus)

Fe wnaeth y datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd ynghylch y datblygiad hwn alw ar y sector cyhoeddus cyfan i rannu eu cyfieithiadau yn agored, gyda'r Bwrdd yn cynnig i fod yn frocer ar gyfer y data mewn cyfnewidfa cof cyfieithu. Y prif wahaniaeth rhwng hyn a chyfnewidfeydd eraill yw bod y data a fyddai ar gael yn rhad ac am ddim. Mae'r holl gofion hefyd wedi eu llwytho i'r Google Translator Toolkit a ddisgrifir isod, ac felly yn ychwanegu at y corpws o gyfieithiadau sy'n seiliedig ar enghraifft ym mheiriant cyfieithu awtomatig Google, Google Translate. Mae'r weledigaeth hon wedi ysgyried datblygiadau ehangach ym myd gwe2.0, torfoli a dulliau cydweithredol. Yn ei hanfod, mae'n credu mai dim ond daioni a ddaw o rannu data o ansawdd rhwng sefydliadau. Enghraifft gorsyml a roddir yn aml mewn cyflwyniadau yw achos damcaniaethol 22 awdurdod lleol Cymru yn cyfieithu ffurflen Treth y Cyngor 22 o weithiau, tra gallai gweinyddion cof cyfieithu helpu i awtomeiddio hwn yn sylweddol. Mae'r fath rannu a ffiniau niwlog rhwng sefydliadau hefyd yn adlewyrchu tueddiadau ehangach mewn theori rheoli ac agendâu nifer o adroddiadau a gomisiynwyd y Llywodraeth, fel Adolygiad Gershon [34], Adolygiad Beecham, [35] Cod Ymarfer Llywodraeth y DU ar God Agored [36]. Mae'n hollbwysig sôn am reoli ansawdd y data a ryddheir gan sefydliadau cyhoeddus; un elfen o hyn fyddai cyfrinachedd. Gall cofion cyfieithu a ddefnyddir mewn sefydliadau cyhoeddus gynnwys data personol yn ymwneud ag unigolion y gellir eu hadnabod y mae'n rhaid ei symud cyn ei gyhoeddi er mwyn osgoi torri Deddf Diogelu Data'r DU. Mae dulliau o awtomeiddio hwn eisoes ar gael mewn systemau o'r fath. Ni ddylai technoleg o unrhyw fath fod yn ddiben ynddo'i hun ond yn alluogwr polisi strategol, yn achos y Gymraeg, ar gyfer normaleiddio ieithyddol.

4.2.10 Llif gwaith cyfieithu a Rheoli Dogfennau Dwyieithog

Gellir cynorthwyo rheoli llawer o brosiectau cyfieithu cydamserol drwy TG a systemau llif gwaith cyfrifiadurol. Gall y rhain hefyd fonitro argaeledd gwahanol gyfieithwyr allanol neu lawrydd i ymgymryd â gwaith ychwanegol (megis nifer o eiriau y gellir eu cyfieithu'r dydd fesul thema, a'r gyfradd cost). Gall systemau 'dashfwrdd' mwy soffistigedig o'r fath hyd yn oed ryngwynebu ag offer CAT er mwyn lleihau cyfieithu ailadroddus sy'n cael ei gontractio allan. Gall technoleg o'r fath hefyd, wrth gwrs, reoli swyddfeydd, er enghraifft, mewn sefydliadau megis awdurdodau lleol sydd â phyllau o gyfieithwyr mewnol. Byddai hyd yn oed yn bosibl i gyfieithwyr llawrydd allanol gofrestru ar gyfer gwasanaethau o'r fath er mwyn cael gwaith rheolaidd, a diweddariadau i gof cyfieithu a therminoleg gyson, a thrwy hynny greu corpws o gofion cyfieithu sy'n cyson

esblygu a gwella y gellir ei rannu ymhellach, gan gyfrannu ymhellach at normaleiddio'r Gymraeg. Mae systemau TM yn y 'cwmwl' megis y Google Translator Toolkit, yn hwyluso cydweithio o'r fath ymhellach o ran rheoli terminoleg a chof cyfieithu.

4.2.11 Llif gwaith cyfieithu a Systemau Rheoli Cynnwys

Mae'r systemau cof cyfieithu a ddisgrifir uchod yn gallu cael eu plygio i mewn i systemau rheoli cynnwys/dogfennau o bob math, a'u cysylltu â rhaglenni llif gwaith ar gyfer unedau/cwmnïau/gweithwyr cyfieithu llawrydd ac i systemau cyfieithu awtomatig. Mewn byd lle mae gwybodaeth yn cyson newid, mae'n bwysig bod y ddau fersiwn ieithyddol yn cael eu cyhoeddi a'u diweddaru ar yr un pryd. Yn y modd hwn, dylid cofio mai prif egwyddor Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yw na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae gan dechnoleg rôl ganolog i'w chwarae o ran galluogi rheoli'r fath gyhoeddi cydamserol. Er enghraifft, ar wefan awdurdod llywodraethol neu leol sy'n gwasanaethu'r cyhoedd yng Nghymru, bydd rhannau o dudalennau neu baragraffau yn cael eu diwygio bob dydd. Pan fydd y system rheoli cynnwys yn cael ei rheoli gan siaradwyr di-Gymraeg, gall y dechnoleg hon gyfeirio segmentau i gyfieithydd a fydd wedyn yn eu cyfieithu gan ddefnyddio cof cyfieithu (a meddalwedd rheoli terminoleg). Pan fydd y cyfieithydd wedi cwblhau cyfieithu, bydd y system llif gwaith yn llwybro'r cyfieithiad yn ôl i'r system rheoli cynnwys yn awtomatig a fydd wedyn yn ei gyhoeddi ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg gwreiddiol a storiwyd wrth aros am ei gymar Cymraeg. Mae hwn yn offeryn pwysig ar gyfer normaleiddio'r pellach ar y Gymraeg a fydd yn galluogi defnyddwyr i gael mynediad at testun Cymraeg a Saesneg cyfredol. (Un o ganlyniadau'r *Ciparolygon* o wefannau oedd nad oedd fersiynau Cymraeg rhai o wefannau'r sector cyhoeddus yn cael eu diweddaru mor gyson â'r fersiynau Saesneg, gwelid 'Fersiwn Cymraeg i ddilyn', mewn rhai achosion, am sawl blwyddyn).

4.2.12 Cyfieithu Awtomatig

Mae cyfieithu awtomatig yn thema a godir yn aml wrth drafod y Gymraeg, cyfieithu a materion TG. Mae wedi ymelwa ar nifer o flynyddoedd o waith ymchwil, ac mae rhai datblygiadau mawr wedi eu sicrhau. Fodd bynnag, ni all technoleg eto gynnig gwaith cyfieithu o ansawdd i gyd-fynd â gwaith cyfieithwyr dynol heb ôl-olygu gan fodau dynol. Serch hynny, mae'r defnydd o systemau arlein rhad ac am ddim, yn enwedig Google Translate, a ryddhawyd ar gyfer y Gymraeg ddiwedd Awst 2009, yn dangos bod modd (yn achos mathau penodol o destun) darparu lefel ddefnyddiol a defnyddiadwy o gyfieithu. Hefyd, mewn cyfuniad â rheolaethau ar yr iaith a ddefnyddir er enghraifft mewn ysgrifennu technegol, gall MT ddarparu cyfieithiad drafft cyntaf o ansawdd ardderchog nad oes angen fawr ddim diwygio arno ac sy'n cynnig arbedion mawr o ran costau cyfieithu. Gall hefyd ddarparu bras gyfieithiad o'r Gymraeg, sy'n galluogi mynediad i'r gymuned ryngwladol, a galluogi staff di-Gymraeg i ddelio â gohebiaeth ysgrifenedig gan gydweithwyr/aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

Fe argymhellodd astudiaeth ddichonolrwydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2004 i gyfieithu awtomatig gan yr Athro Harold Somers o Brifysgol Manceinion, a Golygydd yr *International Journal of Machine Translation*, greu peiriant cyfieithu hybrid ag iddo dair rhan: EBMT [Cyfieithu Peirianyddol yn seiliedig ar Enghreifftiau], RBMT [Cyfieithu Peirianyddol yn seiliedig ar Reolau], ac SMT [Cyfieithu Peirianyddol ar Sail Ystadegau]. Byddai hyn yn galluogi bras gyfieithu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac, yn y dyfodol, yn integreiddio â rhaglenni eraill (megis cwarel ymchwil MS Office a systemau cof cyfieithu). Fel y nodwyd uchod, dylid ystyried hyn yn gymorth i gyfieithwyr, golygyddion ac eraill, yn hytrach nag yn fodd i'w disodli [37]. Byddai symud o



5: Cyfieithu awtomatig (chwith: ystadegol; dde: ar sail rheolau)

gyfieithu, i *ôl-olygu*, fodd bynnag, yn newid diwylliannol sylweddol ar gyfer nifer o gyfieithwyr a dylid defnyddio methodoleg rheoli newid cydnabyddedig lle mae system o'r fath yn cael eu rhoi ar waith. O ran hynny, dylid nodi bod Google Translate—System Cyfieithu Awtomatig Google, yn cysylltu â'r Google Translator Toolkit a hefyd SDL Trados Studio 2009, OmegaT a systemau cof cyfieithu eraill. Mae hyn yn rhoi i'r cyfieithydd proffesiynol ddashfwrdd llawn o opsiynau cyfieithu 'cwmwl': cyfieithu awtomatig [sy'n seiliedig ar enghraifft], Cof Cyfieithu, a rhestrau terminolegol, i gyd ag iddynt fantais o rannu TM mewn amser go iawn gyda'r holl ddefnyddwyr eraill. Mae hyn uwchlaw y grŵp bach o beiriannau cyfieithu awtomatig megis Intertran sydd wedi eu seilio ar ystadegau; mae'r rhain, o'u defnyddio gan amaturiaid a chanddynt ewyllys da ond heb fod ganddynt gymwysterau wedi creu rhai o'r cyfieithiadau mwyaf rhyfedd a welwyd erioed, e.e. cyfieithwyd 'Staff Entrance' 'yn gywir' fel 'Pastwn Taflu i Berlewyg' [hy [darn mawr o bren [a 'staff'] /taflu rhywun i mewn i berlewyg [to 'entrance' them]]. Mae enghreifftiau eraill yn rhy niferus i'w crybwyll a byddant, yn ddiau, yn gyfarwydd i ddarllenwyr mewn ardaloedd dwyieithog eraill. Mae llawer o enghreifftiau i'w gweld ar y wefan rhannu lluniau *Scymraeg* [38]. Mae'r peiriannau cyfieithu awtomatig canlynol ar gael ar gyfer y Gymraeg:

- Apertium, a ddatblygwyd gan y grŵp ymchwil Transducens yn y departament de Llenguatges i Sistemes Informàtics, Universitat d'Alacant mewn cydweithrediad â Pheirianneg Iaith Prompsit.
- Google Translate
- System Cyfieithu awtomatig Saesneg-Cymraeg Alffa Prifysgol Bangor
- Intertran

Gallai Awtomeiddio Cyfieithu gynorthwyo ieithoedd lleiafrifol drwy wella cynhyrchedd cyfieithwyr ieithoedd lleiafrifol a thrwy rannu adnoddau iaith ymhlith aelodau o'r gymuned cyfieithu proffesiynol. Gall cynnydd cynhyrchedd cyfieithu ynghyd â chynnydd o ran ansawdd cyfieithu arwain at ostyngiad mewn costau cyfieithu i iaith leiafrifol, er nad dyma'r unig reswm dros bledio achosion mabwysiadu technoleg o'r fath. Gallai cynnydd yng nghyflymder y cyfieithu (drwy, er enghraifft, lleihau cyfieithu ailadroddus) arwain at fwy o gyfieithiadau'n cael eu gwneud. Os bydd mwy o gyfieithiadau iaith leiafrifol yn cael eu gwneud mae mwy o gyfle y bydd mwy o gynnwys ar gael yn yr iaith, sy'n cynorthwyo i 'normaleiddio' iaith. Mae gwneud ieithoedd lleiafrifol yn fwy gweladwy, yn enwedig mewn technolegau modern, yn debygol o godi statws y ieithoedd lleiafrifol yn y llygaid siaradwyr iaith leiafrifol ac o bosibl eu dymuniad, a'u cyfle, i ddefnyddio eu ieithoedd lleiafrifol. Y Google Translator Toolkit, adeg ysgrifennu'r

papur gwyn hwn, oedd yr unig raglen TM a oedd ar gael am ddim a honno'n seiliedig ar dechnoleg cwmwl heb fod angen unrhyw wybodaeth am beirianneg i'w defnyddio. Mae llawer o gofion cyfieithu eraill, yn rhai perchnogol, a chod agored, yn bodoli. Mae'r Google Translator Toolkit [39] yn offeryn Cof Cyfieithu sy'n gweithio drwy fod y cyfieithydd yn uwchlwytho testun gwreiddiol; wedyn bydd y Toolkit yn rhannu'r dogfennau yn segmentau, yn rhoi cynnig ar gyfieithu'r segmentau hynny, ac yna yn dangos gweddau gwahanol o'r deunydd. Ar ochr chwith y sgrin dangosir y ddogfen wreiddiol, ar yr ochr dde dangosir y ddogfen sydd wedi ei rhag-gyfieithu. Mae ffenestr yn cael ei dangos hefyd lle y gellir golygu'r segment a rag-gyfieithwyd, neu (os na rag-gyfieithwyd) ei gyfieithu. Ar adegau rheolaidd, bydd y corpws o gyfieithiadau a gynhyrchir yn dilyn ymyrraeth y cyfieithydd dynol yn cael ei gynaeafu a'i roi i mewn i'r peiriant cyfieithu, sef y tanwydd y tu ôl i Google Translate, a thrwy hynny creir cylch rhinweddol o ansawdd cyfieithu. Po fwyaf y corpws o gyfieithiadau enghreifftiol, uchaf y bydd y tebygolrwydd ystadegol y bydd y cyfieithu awtomatig a gynigir o ansawdd uwch, heb fod arno angen cymaint o ôl-olygu ac yn y blaen. Mae'r posibiliadau ar gyfer rhannu cyfieithiadau, mewn amser go iawn, rhwng unrhyw nifer o sefydliadau, heb yr angen am meddalwedd ar ochr cleientiaid i gael eu gosod, yn aruthrol.

Mae nifer o ganolfannau yn bodoli, ledled y byd, sy'n ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio posibiliadau corpora a chyfieithu trwy gyfieithu awtomatig hybrid mewn amgylchedd mainc gwaith. Ychydig iawn, fodd bynnag, sydd wedi ystyried anghenion y cyfieithwyr dynol eu hunain sydd yn defnyddio'r dechnoleg bob dydd. Mae un astudiaeth o'r fath [40] wedi gwneud hynny. Gallai mainc o'r fath gael ei defnyddio gan yr holl gyfieithwyr mewn sefydliad penodol, neu rwydwaith ehangach o sefydliadau a byddai'n cynnwys cyfleusterau o'r fath, yn ogystal ag awtomeiddio cyfieithu, er enghraifft, offer awduro rhagfynegol, didoli segmentau yn nhrefn y wyddor, a diweddaru mewn amser go iawn tuag at y cam cwblhau. Gall y technolegau cysylltiedig wella ymhellach cynhyrchedd cyfieithwyr, ac felly gwella tirwedd ieithyddol Cymru. Rydym yn cymryd rhan mewn chwyldro technolegol tawel a fydd, o gael buddsoddiad angenrheidiol mewn cydrannau technoleg iaith addas, yn trawsnewid cynllunio ieithyddol statws ar draws y byd.

4.3 CORPORA

Mae Corpora Cymraeg ysgrifenedig o faint digonol (a allai, er enghraifft, gynnwys nifer fawr o fersiynau electronig o gyhoeddiadau print) yn rhagofyniad ar gyfer datblygiadau pellach mewn technoleg iaith. Mae technoleg iaith o'r fath yn sail ar gyfer llawer o raglenni Cymraeg eraill, er enghraifft, y dechnoleg cyfieithu awtomatig a lleferydd a drafodir yn y papur gwyn hwn. A hithau ar flaen y gad yn y maes hwn ers blynyddoedd lawer, mae Canolfan Bedwyr (ac eraill) wedi datblygu lemateiddwyr (sy'n torri geiriau i lawr ac yn tagio eu ffurfiau gramadegol), corpora (cronfeydd data mawr o destun neu leferydd Cymraeg), algorithmau ar gyfer trefnau didoli a materion peirianneg iaith eraill. Er y bydd y rhan fwyaf o'r adnoddau hyn *ynddynt eu hunain* ond o ddiddordeb i arbenigwyr, mae effaith yr offer angenrheidiol hyn yn bellgyrhaeddol iawn ac yn arwyddocaol, wrth iddynt fwydo i mewn i raglenni technoleg iaith eraill. Gweler hefyd y dechnoleg awtoglosio y cyfeiriwyd ati uchod. Isod ceir rhestr (heb fod yn gynhwysfawr) o rai o'r corpora mwyaf arwyddocaol sydd ar gael ar gyfer y Gymraeg.

- *CEG* (Corpws Electroneg o'r Gymraeg)
- Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, *Ein Geiriau Ni*
